YR YMOFYNYDD.

RHIF. 30.] CHWEFROR, 1850. [CYF. III.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

ARWYDD-FEIRDD CYMRU.

(*Parhad o tudal.* 8.)

PENNOD II.

O gwymp Llewelyn hyd farwolaeth Owain Glyndwr.

1283—1415.

Sylwasom yn y bennod gyntaf nad oeddent arwyddion wedi dyfod yn etifeddol; ond cyn diwedd hon cenfyddir fod hynny wedi dechreu cymmeryd lle, ac felly byddai yn briodol i ni ymchwilio am achosion y cyfnewidiad. Tarddant arwyddion teuluaidd oddiwrth falchder teuluaidd, ond nis gallai llawer o falchder hanfodi mewn amser terfysglyd, pan nad oedd neb yn sicr o feddiannu ei eiddo, a phan oedd gallu milwraidd yn brif hawl i gyfoeth. Deallwn oddiwrth yr ystyriaethau hyn, y rheswm fod llenyddiaeth Gymreig yn fwy clodfawr yn amser llywodraethau rheolaidd y ddau Lewelyn olaf nac yr oedd cyn, ac wedi hynny; a deallwn hefyd nad oedd yn bossibl i arwyddion herodaidd fod yn etifeddol nes i lywodraeth Lloegr gael ei anrhydeddu yn Nghymru. Nid oes lle i ddadleu na fuasai hwn fel llawer o gyfnewidiadau ereill wedi ei ddwyn i ben lawer yn gynt, pe buasai byw Llewelyn ab Gruffydd, a thawelwch yn y Dywysogaeth; gan y buasai y Tywysog deallus a gwrol hwnnw yn codi gogoniant Cymru yn uwch nag oedd er ys oesoedd cyn ei amser, a thrwy hyn yn rhwymo wrth ei ochr bawb a ddewisent ddaioni eu gwlad. Ond o herwydd ei gwymp, disgynodd llenyddiaeth Gymreig o'i phreswylfa ogoneddus, a thros lawer o flynyddoedd cuddiodd ei phen. Tueddwyd y Cymry trwy weithredoedd cyfrwys a chyfiawn Edward i ymlyuu wrth frenin Lloegr, ac o hynny allan, aethant mewn pob cyffroadau cyffredinol yn un genedl. Gwahoddwyd Prydain i ryfeloedd y Groes, ac wele Gymry a Saeson ochr yn ochr yn rhuthro trwy ganol y Saraseniaid. Hanfoda perthynas agos rhwng rhyfeloedd y Groes a'r testun dan sylw; ac ar hynny helaethaf ychydig. Dywedir gan hanesyddwyr mai y rhyfeloedd hyn oeddent ddechreuad herodaeth, gan fod eisioes ar-

wyddion i wahanu yr amrywiol lwythau o Europeaid oddiwrth eu gelynion; ac y mae pob hanesydd ond yr anghredadyn Gibbon yn credu i'r pendefigion Europeaidd ddyfod adref yn ddynion mwy gwybodus, a rheolaidd; a barna Guizot* mai hyn oedd achos dymchweliad y pendefigaethau bychain, gwneuthuriad Arglwyddiaethau mawrion, a'r egniad meddwl canlynol a'r hynny. Clywyd am ruthriadau y y Saraseniaid a halogiad bedd ein Iachawdwr, gyda mawr syndod a digllonrwydd trwy holl Brydain; a phan bregethwyd y rhyfeloedd hyn gan Archesgob Baldwin yn 1188. cynnyllent y Cymry wrth y miloedd i wrando; ac oddiwrth aralleiriad Price o linellau Elidr Sais, sef,—

"Am fedd Crist, Creawdwr Nef, y mae gofid;
Y ceryddawl ddigred yn ei gylchynu,
Tros y tir yn trywanu yn orwyllt,
Y gormesawl Saraseniaid gyda Saladin,"

deallir na osodwyd yr hâd mewn tir diffrwyth. Aeth rhif luosog o Gymry tua Phalestine, er i amrai wrthod; ac nid oes lle i amheu na wnaethpwyd cyfnewidiad yn eu meddyliau a'u harferion hwythau.

Amgylchiadau rhyfedd a digwyddiadau pwysig mewn hanes y meddwl Europeaidd oeddynt y rhyfeloedd hyn. Sonir am danynt gan rai hanesyddwyr byrbwyll fel rhyw ddigwyddiadau annisgwyliedig; er mewn gwirionedd nad oeddent ond parhad o'r hen elyniaeth rhwng Cristnogaeth a choelfarn Mahomet. Dechreuodd y rhyfel rhwng y ddwy egwyddor yn Spaen, a mor foreued a'r 8fed. ganrif; hon a dawelodd pan ddaeth crefydd Crist yn ben trwy wrolder Charles Martel, a Roderic; ond pan glywyd am halogaeth bedd ein Iachawdwr, penderfynwyd dileu yr enw Mahometanaidd oddiar wyneb y ddaear. Defnyddiwyd holl rym yr Eglwys Babaidd i gynhyrfu y gorllewin yn erbyn Paganiaid y deau; ac yn y modd hyn dihunwyd Europe o'r "cwsg tawm a fygythiodd fod ei holaf."† Y canlyniad o'r cynnyrfiadau a'r ymladdiadau hyn, oedd annog meddyliau dynion i wellhau eu cyflyrau ac i ehangu eu gwybodaeth. Daethant yr arwyddion a ddefnyddiwyd gan bendefigion i wneud eu hunain yn adnabyddus, yn bethau gogoneddus a haeddianol o goffadwriaeth; ac o herwydd hynny gwnaethpwyd hwynt yn arwyddion teuluaidd ac etifeddol. Y fath yma oedd effeithiau y *Crusades* mewn teyrnasoedd ereill; a phan gyfrifir fod llawer o enwogion Cymru ynddynt, llawer mewn uchel sefyllfaoedd yn Lloegr, a llawer yn wyr gogoneddus yn Ffrainc, nid oes achos rhyfeddu fod herodaeth yn amser Glyndwr wedi gwneud camrau mor freision; na lle i hannu yr effeithiau hynny i unrhyw achosion ereill, na dychweliad adref o feibion afradlon, a defaid crwydredig Cymru.

Heblaw hyn yr oedd yn Nghymru yn niwedd y 14eg. ganrif, achos cynhyrfiol arall ar waith. Yr oedd brenhinoedd Ffrainc‡ yn cynnal perthynas agos a'r Cymry, amser lawer cyn i Glyndwr ofyn eu cynnorthwy, gan eu gelyniaeth yn erbyn Lloegr; ac hawdd iawn deall oddiwrth hyn ac oddiwrth flinder y Cymry dan iau estronol, fod Iolo Goch wedi rhoddi desgrifiad cywir o gyflwr y wlad, pan wrth gyfarch "Eryr digrif Eryri" dywed,—

"Mynych iawn y dymunais
Cael Arglwydd llawn, arwydd llain
O honom innau'n hunain."

Attebodd Owain Glyndwr i'r dymuniad, a thueddent ei amddiffyniadau ef o'i wlad, yn helaeth i annog barddoniaeth herodaidd.

---

* "In this direction society marched; to this object were its advancements pointed."—Histoire de la Civilisation en Europe p. 165.

† Geiriau sylweddol yr hanesydd Ellmynaeg Heeren ydynt y rhai a goffheir uchod.—Historical Treatises p, 9. ‡ Thierry Whittaker's Edition p. 259.

Yn yr oes hon parchwyd y gelfyddyd herodaidd, ac arwyddion a amlhaent. Ar y cyntaf nid oedd un lliw ar y darian, ond yn awr deallwn oddiwrth amryw linellau o eiddo Iolo Goch, ac oddiwrth y canlynol,—

"Cylch llys, dan *liw calch llasar*."

o eiddo Rhys Goch o Eryri, mai *glas* oedd y lliw cyffredin; er fod Iolo Goch yn dangos mai coch tanllyd (*vermillion*) oedd tarian Iarll Mortimer;—

"*Sinobl* ac arian glan gloyw,
Ym yw'r ysgwyd amrosgoyw."

Sonir yn fynych am "gottoyw aur" (golden spurs), a pheisiau llurigog (coats of mail); a desgryfia Iolo y fwyall, yn---

"Neddai ddu a naddai ddiawl."

Lled anaml y crybwyllir am arwyddion pennodol, ac yn awdl Gruffydd Llwyd i Owain Glyndwr,

"Eryr digrif afryfed
Owain helm gain am ged"

a

"Pen draig ar ei ffon draw"

ydynt yr unig rai a greffir arnynt; ond dywedir i'r rhan hynny o ddilynwyr Owain a berthynent i Dudoriaid Penmynydd wisgo "three Norman heads Coupees*." Pa fodd bynag y bo y gwir am wisgiad yr arwyddion hyn yn y 15fed. ganrif, camsyniad Pennant yw fod yr arwyddion yn perthyn i Ednyfed Fychan.

Rhoddaf yn nesaf feirniadaeth fer ar deilyngdod barddonol y 132 o flynyddau dan sylw. Afraid adrodd hen chwedlau afresymol am laddiad beirdd a ganent wedi eu lladdfa; a diles fyddai enwi pawb o feirdd yr oes.† Dôf, diyspryd, a chloff iawn yw Cywydd Gwilym Ddu i Syr Gruffydd Llwyd; pregethwr heddwch, molianydd dysg a gwybodaeth, a charwr merched melynwallt oedd bardd doniol Ifor Hael, ac Ofydd melysaf y Dywysogaeth; nid oes ar glawr ond ychydig o waith Rhys Goch: ac am hynny cyfyngir ein sylw i Iolo Goch a Gruffydd Llwyd. Nid yw Gruffydd mor rymus a Iolo; ac y mae ei waith yn dangos mwy o feddalrwydd y Bardd Teulu, nac o'r gwir brydydd. Sonia am Owain fel pendefig gwladol, ac mewn iaith dyner gwasanaethwr; ond esgyn awen Iolo yn uwch, a gwna sefyllfa wledig Owain yn is-ddefnyddiol i enw mawfrydig *Hero*. Gwna Gruffydd i lawer o fawredd Owain ymddybynu ar ei darddiad oddiwrth Urien Rheged; ond teifl Iolo y fath ffynbaglau ymhell o'i ffordd, a dengys Owain yn enwog, yn wrol, ac yn awdurdodol o herwydd priodoleddau ei hun. Arddengys Llwyd y rhan achyddol a thawel, a Iolo y rhan arfol a rhyfelgar o farddoniaeth herodaidd. Adenydd trymion oeddent rhai Gruffydd, ac y mae gormodd o naddiadau "bwyall Llawdden" yn amlwg yn ei farddoniaeth; ond Awen Iolo oedd fywioced a'r wenynen, rydded a'r gwynt, a grymused a llais angel: ei ddrychfeddyliau oeddent yn ddiddarfod, a phlethai eiriau clogyrnog a chynghanedd onglog gyda'r mawr allu mor fynegiadol o anian-dnedd (genius). Barddoniaeth y galon yw'r eiddo Gruffydd; deuant linellau Iolo yn rhy fynych o'r pen yn unig. Rhagora Llwyd mewn rhannau telynaidd, a theimladol (lyric), a thyner (pathetic); ond perthyn barddoniaeth ddesgryfiadol a dyrchafedig i Iolo Goch ei hun. Mae anerchiad Iolo i Owain Glyndwr sy'n dechreu gyda'r geiriau, "Y gwr hir ni'th gar Harri" yn llawn o feddyldrychau grymus, a phrydyddiaeth rhagorol. Rhoddaf enghraifft o'i wahoddiad treiddiol ac egniol i Owain dychwelyd o'i ddiogelfan;—

---

* Pennant's North Wales, vol. ii. p 260.

[† Y mae Mr. Stephens wedi trin y pyngciau hyn yn helaethach yn ei "Literature of the Kymry, Chap. iii. Section 1."—Gol.]

Y gwr hir, ni'th gar Harri,*
Adfyd aeth, a wyd fyw di?
Ag od wyd, a gwayw o dân,
Dyred, dangos dy darian.

* * * *

Dyred o wlad y Dwyrain,
Darw mawr, a bwrw dyrau main;
Rhwydd y daw rheiddiau o dân
Rhagod, pawb a'th anrhegan.
Eryr glwys, dos Iôr o'r Glynn,
Iarll awchlaif i dir Llychlyn;
Y gwr a ddwg, arwydd iâch
Yn *ei Darian bedeiriach:*
Tri llew glas, fal yr *asŵ*,
Trwy wyllt dân, a'r tair rhwyll dûr.

* * * *

Gollwng, yn gynta gellych
Saith llong, a saith ganllong gwŷch;
Dyred wrth ddymuned Mon,
O'r Nordd, hyd yn Iwerddon.

* * * *

Dyred i'n gwlad, dûr iawn glêdd,
Deyrnaswr, drwy Ynysedd;
Cynneu dân, cyn oedd unawr,
I oror Môn Eryr Mawr!
Cûr gestyll, caerau cystudd,
Cwncweria wâl, cwn Caerludd,
Cûr a lladd y wâdd a'i wŷr
Cyrn aur Mon, cûr Normanwyr.

* * * *

Deigr Cadwaladr Fendigaid,
Dyred a dwg dir dy daid;
Dyga ran, dy garennydd,
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd!

Llai egniol, ond llawn mor deilwng o ystyriaeth ynt y llinellau tyner canlynol, o waith Gruffydd Llwyd,—

Ner mawlair naw rym milwr,
Nag ar fynad arnad ŵr:
Yr awr yr aethost ar wyth,
I Brydain darpar adwyth;
Bu agos i hiraeth gaeth gad,
A'm dwyn i farw am danad!
Nid aeth dy gof drosof draw
Aur baladr awr heb wylaw.

Dagrau dros fy ngrudd dygrych
Dyfry gwlaw fal dwfr, a'i gwlych.
Pan oedd drymaf fy nhrafael
Am danad mab y tad hael
Clywais o ben rhyw gennad;
Cei ras Duw cywir ystad!

---

* Harri'r Pedwerydd, Brenhin Lloegr.

Cael yn yr aer calon rwydd
O honod fawr glod fy Arglwydd!

Wele egni ar un llaw, a thynerwch ar y llall! Hawdd gallwn gredu fod Owain yn hoffi ei feirdd, a hawdd gallwn ninnau wrth ddarllen barddoniaeth mor odidog chwerthin am ben cecraeth Sais, ac ymfalchio fel cenedl fod genym drysorau mor werthfawr. Etto nid yw yn ddigonol fod gennym hendeidiau gogoneddus: dylem hefyd fod yn wrol ac yn wybodus ynddom ein hunain.—*See Literature of the Kymry, p.* 232.

(PEN. III. *yn y nesaf.*)

Y DRINDOD.

LLYTHYR II.

Mr. Ymofynydd,—Yn fy llythyr cyntaf ymdrechais ddangos oddiwrth lais natur a datguddiad nad oes ond un gwir a bywiol Dduw. Y mae iaith yr ysgrythyrau mor gref, mor bendant ar y pwngc, fel mae'n rhaid cael rhyw brofion cedyrn iawn, ac mor aml ag sydynt yn gedyrn, cyn y gellir fy narbwyllo i gredu fod rhagor nag un gwrthrych addoliad. Dywed gair Duw mai Jehofah yn *unig* sydd Dduw; nad oes Duw *ond* Efe; nad oes neb *tebyg* iddo; mai Efe ei *hunan* wnaeth y cyfan oll &c.

Ond er mor amlwg yr ysgrythyrau ar y pwngc pwysig hwn, y mae llawer yn *tybied* eu bod yn canfod eu hochr hwythau yno hefyd. Er mai un Duw sydd, dywedir fod yn y duwdod hwn dri o bersonau dwyfol, yn wrthrychau addoliad: "Bod i ni addoli un Duw yn drindod, a'r drindod yn undod. Nid cymmysgu o honom y personau: na gwahann'r sylwedd. Canys un person sydd i'r Tad, arall i'r Mab: ac arall i'r Yspryd Glan. Eithr duwdod y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glan sydd unrhyw: gogoniant gogyfuwch, mawrhydi gogyd-dragywyddol. Unrhyw yw'r Tad, unrhyw yw'r Mab; unrhyw yw'r Yspryd Glan. Digreedig Dad, digreedig Fab: digreedig Yspryd Glan. Anfesuredig Dad, anfesuredig Fab: anfesuredig Yspryd Glan. Tragywyddol Dad, tragywyddol Fab: tragywyddol Yspryd Glan. Ac etto nid ydynt dri tragywyddolion: ond un tragywyddol. Ac fel nad ydynt dri anfesuredigion, na thri digreedigion: ond un digreedig, ac un anfesuredig &c."

Dywedir fod y Beibl yn cefnogi'r fath *frawd* dwl a hwn, y *luminossimœ tenebræ*, tywyllwch disglaeriaf hyn. Y Beibl! Nid yw'r gair trindod ddim o fewn ei gloriau; 'does dim "tri pherson ac un Duw" i'w gael yno; nac un ymadrodd tebyg iddynt chwaith.

Ac "os yw'r ymadrodd, fe all yr athrawiaeth hefyd fod yn eisiau yn yr ysgrythyrau. Y mae geiriau yn sefyll am bethau; a phle bynnag y cair y pethau ymhlith dynion, cair hefyd, yn gyffredin, eiriau cyfattebol i'r cyfryw bethau. Pe buasai gan yr eglwys Iuddewig neu Grist'nogol feddylddrych am drindod, braidd y gallasent hwy (mwy na St. Athanasius) fod heb ryw air cyffredin i osod allan y cyfryw feddyl-ddrych. Yr oedd ganddynt feddylddrych am Dduw, ac yr oedd ganddynt hefyd fwy nag un gair i'w osod allan. Cyfaddefir gan philosophyddion a haneswyr fod geiriau unrhyw iaith yn arwydd-lun da o gyflwr y genedl fyddo'n siarad yr iaith honno. Y mae *Virtus* [rhinwedd] yn y Lladin yn wreiddiol yn arwyddoccau gwroldeb. Oddiwrth hyn yr ydym yn casglu fod y Rhufeiniaid yn bobl ryfelgar. * * * Y mae ymchwilwyr hanes opiniynau, heb un petrusder, yn cyflëu yr ystyriaethau hyn at genhedlaethau eraill. Pam lai at yr Iuddewon hefyd? Fe ddywedir fod rhai llwythau heb un meddwl am Dduw, oblegid nad oedd ganddynt un gair cyfattebol iddo. Yn ddiddadl, nid oedd un gair gan yr eglwys Iuddewig na'r Grist'nogol yn gyfystyr a'r gair trindod. Mewn gair, y mae tarddiad y gair yn

bradychu tarddiad yr athrawiaeth hefyd. Y mae *Trimurti* (enw'r drindod Indiaidd) o darddiad dwyreiniol, *trias* wedi cyfodi yngwlad Groeg, *trinity* (trindod) wedi tarddu o'r Lladin. Nid oes un gair cyfystyr yn Asia orllewinol. Chwiliwch eiriadur Hebraeg yr Hen Destament, a geiriadur Groeg y Testament Newydd; ni chewch drindod yn un o honynt. Os oedd yr athrawiaeth ganddynt, pa fodd nad oedd ganddynt air i'w gosod allan?" Felly Dr. Beard.

Yn awr, gwyddis fod trindod yn Lloegr yn bresenol, ac y mae gan y Sais y gair *trinity* i osod ei feddwl allan; y mae trindod yn cael ei choleddu yng Nghymrn hefyd, ac y mae gan y Cymro y gair *trindod* at y pwrpas: ond nid oes ym Meibl y Sais na'r Cymro ddim un gair am drindod. Y mae'r gair trindod yn eu geiriaduron, yn eu credoau, yn eu catecismau, nis gellir gwneuthur hebddo; ond yn eu Beibl, nid oes gyffelyb iddo i'w gael!! Felly y mae geiriaduron, credoau, a chatecismau yn fwy llawn na "Gair y bywyd" ei hun. Ydynt yn sicr yn fwy llawn o *drash*, ond nid o anhepgorion iechydwriaeth. Ond dywedir y gellir *casglu* 'r drindod oddiwrth rai adnodau yn y Beibl. Ond dylid cofio mai nid athrawiaeth datguddiad yw athrawiaeth casgliad, ac y gall dyn gasglu yn anghywir, a'i fod yn gwneuthur hynny yn fynych. Ond bellach at yr adnodau a dybir fod yn cynnwys y *drindod.*

Dywedir fod geiriau yn y rhif luosog yn cael eu harfer am Dduw tra mae'r ferf neu'r *adjective* yn y rhif unigol; ac fod hynny yn dangos lluosogrwydd o bersonau mewn undeb hanfod: megis Gen. i. 1. "Yn y dechreuad y creodd Duw, (Hebraeg, Bera Elohim, y Duwiau a greodd, nid a greasant) y nefoedd a'r ddaear." Deut. vi. 4. "Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw (Heb. Elohim, Duwiau) ni, sydd un Arglwydd." Josua xxiv. 19. "A Josua a ddywedodd wrth y bobl, ni ellwch wasanaethu yr Arglwydd, canys Duw (Heb. Elohim, Duwiau) sanctaidd *yw Efe.*" Preg. xii. 1. "Cofia yn awr dy Greawdwr (Heb. Bwraik, dy Greawdwyr)."

Y mae'n beth rhyfedd fod neb cyfarwydd a dull yr Hebreaid o lefaru ac esgrifenu yn tynnu y fath gasgliad anhêg: yr wyf yn dywedyd anhêg; oherwydd fod enwau yn y rhif luosog yn fynych yn cael eu harfer, yn yr iaith Hebraeg, am bethau a phersonau yn y rhif unigol, neu yn hyttrych pan nad oes ond un peth neu berson i'w ddeall. Gen. i. 2. "A thywyllwch oedd ar wyneb (Heb. Ol peni, ar wynebau) y dyfnder; ac yspryd Duw oedd yn ymsymmud ar wyneb (Heb. Ol peni, ar wynebau) y dyfroedd." Ezec. xvi. 56. "Canys nid oedd mo'r sôn am Sodom dy chwaer yn nydd dy falchder (Heb. nawnik, dy falchderau)." Esay liii. 9. "Efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir, a chyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth (Heb. Bemwtiw, marwolaethau)." Yn y llefydd uchod, ynghydag amryw eraill a ellesid eu crybwyll, y mae'r geiriau Hebraeg yn y rhif luosog, tra mae'r cyfiaethad o honynt yn y rhif unigol, fel y dylai fod. Eithaf byrbwylldra fyddai casglu, oddiwrth y fath eiriau, fod rhagor nag un wyneb gan y dyfnder a'r dyfroedd, mwy nag un farwolaeth neu falchder yn yr adnodau uchod.

Y mae'r casgliad yn anhêg, meddaf etto, oherwydd fod geiriau yn y rhif luosog yn cael eu harfer am un person, a dim ond un: am feistr gwas, Exod. xxi. 4-6. "Os ei feistr (Heb. Am adoniw, os ei feistriaid) a rydd iddo wraig. * * Hoff gennyf fy meistr (Heb. at adoni, fy meistriaid) ** Yna dyged ei feistr (Heb. adoniw al ealehim, dyged ei feistriaid ef at y *duwiau*) at y *barnwyr.*" Y mae geiriau yn y rhif luosog yn yr Hebraeg etto yn cael eu harfer am *berchen* pudew, Exod. xxi. 34; am berchen ych, Exod. xxi. 29. Ynghyd ag mewn rhifedi dirfawr o fanau eraill yn yr ysgrythyrau, lle y cair yr un dull o siarad ac esgrifenu; ac etto nid oes neb wedi casglu lluosogrwydd o bersonau oddiwrth y cyfryw ddull. Gwyddant yn well, a dylent wybod yn well gyda golwg ar Dduw hefyd.

Y mae'r casgliad yn anhêg etto, oherwydd y mae *adoni*, meistriaid neu arglwyddi yn y rhif luosg, yn cael ei arfer, lle na all hyd yn oed dychymmyg ei hun weled rhagor nag un person. Arferir ef am Abraham, yn Gen. xxiv. 9, 10, 51. "A'r gwas a osododd ei law dan forddwyd Abraham ei *feistr* (Heb. *adoniw*, ei feistriaid, neu arglwyddi); a chymmeroedd y gwas ddeg camel o gamelod ei *feistr* (Heb. *adoniw*, ei feistriaid)." Y mae yr un gair yn cael ei arfer am Potiphar yn Gen. xxxix. 2; am Pharaoh, yn Gen. xl. 1; am Joseph, yn Gen. xliii. 30, 33; am Shemer yn 1 Bren. xvi. 24. Yn awr, a all rhyw un yn ei iawn bwyll gasglu oddiwrth y cyfryw ddull Hebraeg o esgrifenu fod Abraham, Potiphar, Pharaoh, a Shemer, bob un o honynt yn drindod, neu ragor o bersonau, serch fod y gair Hebraeg am feistr yn cael ei arfer yn y rhif luosog am danynt?

Ond yr hyn sydd fwy byth i'r pwrpas, y mae'r gair *Elohim*, *duwiau*, yn cael ei arfer yn y rhif luosog am ddynion yn gystal a Duw. Arferir ef am Moses, yn Exod. vii. 1. "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Mosrs, gwel mi a'th wnaethum yn dduw (Heb. *Elohim*, *duwiau*) i Pharaoh, ac Aaron dy frawd fydd yn *brophwyd* i ti." A oedd Moses hefyd, yn drindod o bersonau tebyg? Yr oedd yn cael ei alw yn *elohim*, duwiau, a hynny gyn Jehofah ei hun. Y mae yr un gair etto yn cael ei arfer am Samuel yn 1 Sam. xxviii. 13, 14. "Duwiau (Elohim) a welais yn dyrchafu o'r ddaear ** a gwybu Saul mai Samuel oedd efe." Am Solomon yn Ps. xlv. 46. "Dy orsedd di O Dduw, (Elohim, duwiau) sydd byth ac yn dragywydd." Myn rhai mai at Iesu Grist y mae'r geiriau hyn yn cyfeirio. O'r goreu; yna y mae Crist yn drindod o bersonau, ac nid yr ail berson yn y drindod mwyach Ac y mae'r geiriau canlynol yn dangos fod trindod arall yn ei eneinio ef etto: "Am hynny y'th eneiniodd Duw (Elohim, duwiau) sef dy Dduw di (*Alehik*, dy duwiau di) ag olew gorfoledd &c." Felly dyma un *elohim* yn enneinio *elohim* arall; ac os yw *elohim* yn arwyddo trindod o bersonau, dyma ddwy driudod o leiaf, neu chwech o bersonau dwyfol. Y mae'r gair *elohim* yn cael ei arfer am angel yn Barn. xiii. 21, 22; ac yn Ps. xcvii. 7. ni a gawn y geiriau rhyfeddol hyn, "Addolwch ef yr holl dduwiau, *elohim*. Arferir ef hefyd am farnwyr yn Exod. xxi. 6. "Yna dyged ei feistr ef at y barnwyr," *elohim*, duwiau.

Arferir *elohim*, duwiau, am dduwiau gau hefyd, yn aml iawn, pryd nad oes ond un i'w ddeall. Am y llo aur Exod. xxxii. 4. "Ac efe a'u cymmerodd o'u dwylaw, ac a'u lluniodd a chûn, ac a'i gwnaeth yn *llo* tawdd; a hwy a ddywedasant, dyma dy dduwiau, *elohim*, di Israel, a *rhai* a'th ddug di i fynu o wlad yr Aifft." Felly, llo, *un llo* sydd yn cael ei alw yn *elohim* duwiau, yma. A oes yma drindod wyddis? Arferir *elohim* etto a'm Baal-berith Barn. viii. 33. "Yna meibion Israel a ddychwelasant, ac a butteiniasant ar ol Baalim, ac a wnaethant Baal-berith yn *dduw* (*elohim*, duwiau) iddynt." Arferir ef am Dagon yn Barn. xvi. 23, 24; am Ashteroth, Chemosh, a Milcom yn 1 Bren. xi. 33; am Baalzebub 2 Bren. i. 2. 3; am Nisroch 2 Bren. xix. 37. A ydyw yr holl esiamplau hyn ddim yn ddigon i ddangos, nad yw'r gair *elohim* ddim o angenrheidrwydd yn arwyddoccau lluosogrwydd personau er yn y rhif luosog? Barned y darllenydd pwyllog.

Fy sylw nesaf yw hwn; a chaniattau fod *elohim* yn arwyddoccau lluosogrwydd y mae'r casgliad yn hollol anheg, mai lluosogrwydd personau sydd i'w ddeall wrtho Os gellir casglu lluosogrwydd o ryw fath oddiwrtho, lluosogrwydd o *dduwiau* yn sier ydyw. "Yn y dechreuad y creodd Duw, (*elohim*, y *duwiau*) y nefoedd a'r ddaear," ac nid, yn y dechreuad y creodd y tri pherson ag un Duw y nefoedd a'r ddaear, ydyw geiriau pendant yr ysgrythyr. "Clyw Israel, yr Arglwydd eich *duwiau*, *elohim*, nid eich tri pherson yn un Duw, sydd un Arglwydd, yw iaith y bibl. O ïe; os oes yma ragor nag un, rhagor nag un *Duw* sydd yma yn amlwg: casgliad rhy anhawdd hyd yn oed i drinidodwr, er llyngcu'r afal ganiattau, debygwn.

Ond i ddirwyn yr *argument* i fynu; gan fod y gair *elohim* duwiau, yn gystal ag enwau eraill yn y rhif luosog, yn cael ei arfer am *bethau unigol*, ac am bersonau *unigol*; am Moses, Samuel, Solomon, a barnwyr Israel; am dduwiau *gan* y cenhedloedd; lle nad oes i ni feddwl ond un peth neu berson; y mae'n amlwg i mi, nad yw'r gair hwn ddim yn arwyddoccau rhagor nag un. pan yr aferir ef am Jehofah, ac nad yw dirgelwch y drindod ddim yn y mesur lleiaf yn cael ei osod allan trwy y fath ddull o llefaru. Teccach o lawer fyddai casglu fod yr Iuddewon, wedi iddynt ymgymmysgu cyhyd a'r cenhedloedd eilunaddolgar, yn methu ymryddhau oddiwrth y dull o siarad, a glywsant ganddynt, er eu bod wedi ymadael yn llwyr a'u duwiau gau. Ond nid wyf am dynnu'r casgliad hwn 'chwaith; oherwydd ymddengys i mi nad oes rhagor i'w ddeall wrth y cyfryw ddull na'r *pluralis excellentiæ* y dysgedigion: hynny yw, dull cyffredin o ddangos parch i rai o uwch gradd; fel y mae yn arferiad gennym ni y Cymmry i ddywedyd *chwi a chwithau*, yn lle *ti a tithau* wrth annerch rhai o uwch sefyllfa, neu y rhai y byddwn am ddangos parch iddynt. Y mae'r *Germans* yn myned ymhellach o lawer na'r Cymmry na'r Saison yn hyn. Y maent hwy yn arfer y trydydd person yn y rhif luosog wrth annerch yr hwn fyddont am barchu: megys; "*Sie sind nicht whôl*," nid ydych yn, iach; llythyrenol, nid ydyut hwy yn iach: "*Sie kennen ihn nicht*," nid ydych yn ei adnabod ef. Gelwir y dull hwn o siarad neu ysgrifenu yn *Pluralis excellentiæ*, fel y dywedais eisioes, ac y mae llawer o drindodiaid dysgedig o'r farn mai dull o'r fath sydd yn yr aduodau fu dan ein sylw. Ymhlith eraill, dyma yw barn Tostot, Cajetan, Calvin, Castallio, Mercer, Bellarmine, y ddau Fuxtorf, Spanhein Limborch, Le Clerc, Eichorn, Calmet, Michaelis, ac amrywiol eraill; oll yn drindodiaid brwd er hynny; y rhai, er na chanfyddant drindod yn yr adnodau uchod, a dybiant er hynny, ei bod yn cael ei gosod allan yn ddigon amlwg, mewn mannau eraill o'r Beibl.

Ble bellach y mae lle i drindod i sefyll ar y fath sylfaen dywodlyd a hon? Ai nid castell ar ben cawnen ydyw, neu yn hyttrach castell ar ddim? Yn ol swn y llythyren nid trindod ond aml dduwiaeth y mae'r cyfryw ddull ymadrodd yn osod allan; ond a gaiff y dull trindodaidd o ymresymu agor drws i dduwiau anneirif y paganiaid ddyfod i mewn? Ai ofer y llefarodd Duw? ai ofer y llafuriodd ei weis ffyddlon, ac y dioddefasant hyd angau dros ogoniant yr Unig Bennaeth, dros yr *Un* a'i enw yn UN? Dywedir wrthym fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Yspryd Glan yn Dduw, ac fod yr ysgrythyr yn dywedyd nad oes ond *Un* Duw; felly, meddant, dyma drindod yn undod, ac undod yn drindod: dywed arall mai Duw yw'r Tad, mai Duw, sef yr unDuw yw'r Mab, mai Duw sef yr un Duw yw'r Yspryd Glan; yr hyn yw Sabelliaeth, neu undodiaeth dan fwbach. Ond os yw'r Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Yspryd Glan yn Dduw, ac nad oes ond un Duw wedi'r cyfan, pam yr arosir wrth dri wyddys? Ond ellir dywedyd hefyd ar yr un tir, fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, yr Yspryd Glan yn Dduw, Moses yn Dduw ac Aaron yn prophwyd iddo hefyd, Samuel yn Dduw, Solomon yn Dduw, barnwyr Israel yn Dduwiau, yr rhai y daeth gair Duw attynt yn dduwiau, a'r ysgrythyr nis gellir ei thorri, ac etto fod yr un ysgrythyr yn dywedyd wrthym mewn modd pendant, nad oes oud un Duw; ac felly wele, luaws mawr o bersonau yn y Duwdod, ac nid tri yn unig. Beth a wnawn ni bellach? Gwn beth a wnaf fi o leiaf; troi yn ol a wnaf at brif erthygl crefydd yr Iuddew a'r Cristion; "Canys er bod rhai a elwir ya dduwiau (fel y gwelwyd eisioes) pa un bynnag ai yn y nef ai ar y ddaear, megys y mae duwiau *lawer* (nid tri yn unig) ac arglwyddi lawer; eithr i mi nid oes ond *un Duw y TAD.*"

Felly, a gadael i'r trindodwr i gael ei *elohim*, a gwneuthur ei oreu o hono, crug o dduwiau sydd ganddo wedi'r cyfan, ac nid tri o bersonau, yr hyn sydd mor groes

i'r holl gyfundraeth Iuddewig, fel nas gellir cadw hon i fynu, nac ychwaith yr oruchwiliaeth Grist'nogol a gwirionedd y syniadau poblogaidd ar yr un pryd. Nid oes rhagor i'w ddeall, ynte, oddiwrth ffurf luosog y geiriau a arferir am Jehofah na phriod-ddull Hebraeg o lefaru. Y mae mor wrthun i gasglu fod rhagor nag un Dnw, neu ragor nag un person yn yr hanfod ddwyfol, oddiwrth y cyfryw ddull, ag y fyddai i gasglu fod Athen yn rhagor nag un dref, oherwydd fod y Groegiaid yn ei galw Athenai, y Lladinwyr Athenæ, a'r Saison Athens.—Y mae yn eithaf tebyg fod gair yn eisiau yma i wneuthur y synwyr yn gyflawn, ac mae'r ymadrodd yn llawn yw, *Ale elohim,* Duw y Duwiau. Gwyddom o leiaf fod Duw yn cael ei alw wrth y cyfryw ymadrodd yn fynych.

Mewn perthynas i'r ferf, sef ei bod yn y rhif unigol, digon fyddai sylwi, nad yw yn dangos dim ond dull cyffredin, mewn rhai iaethoedd, o lefaru, ac yn yr Hebraeg yn aml heblaw'r adnodau a nodwyd uchod: megys Num. 32. 25. "Viamer beni gad, Meibion Gad a *lefarodd,*" yn lle, meibion Gad a lefarasant. Pwy a ddychymygai oddiwrth yr adnod hon, fod lluosogrwydd o bersonau mewn un hanfod yma? Ac etto byddai y casgliad yr un mor deg a'r un a dynner oddiwrth yr ymadrodd, "y duwiau *greodd.*"

Nid yw'r cyfryw ddull ddim yn gyfyngedig i'r iaith Hebraeg yn unig; oblegid y mae amrywiol enwau yn yr iaith Saisneg yn y rhif lluosog tra y mae'r ferf yn y rhif unigol: megis, *means, news, alms* &c, ac y mae rheol wedi ei ffurfio yn yr iaith Roeg ar yr egwyddor hon, neu debyg iddi, sef *"Neutra pluralia gaudent verbo singulari."* Ond a chaniattau, am fynud, fod *Bera elohim,* y duwiau a *greodd* yn arwyddoccau lluosogrwydd mewn undod, beth wnair o Gen. 20. 13. ac amrywiol eraill, lle mae'r ferf neu'r *adjective* yn y rhif lluosog:* *"Etow ati Elohim,* ond pan barodd Duw i mi grwydro." Llythrenol, y *duwiau a barasant* i mi grwydro. Yma y mae'r ddau yn y rhif lluosog, y ferf a'i *nhominative,* Ble mae'r drindod yn undod yn awr? Os yw *bera elohim* yn dangos lluosogrwydd o bersonau mewn undeb sylwedd, y mae'n rhaid fod *Etow ati elohim* yn dangos lluosogrwydd o bersonau ac amrywiaeth sylwedd. Y gwir yw, pan fyddo *elohim* yn y rhif lluosog yn sefyll am *un* bôd, y mae'n natturiol, bryd hynny, fod y ferf yn y rhif unigol; ond pan yn arwyddoccau rhagor nag un, fod y ferf neu'r *adjective* bryd hynny yn y rhif lluosog. Etto nid yw hon ddim yn rheol gyffredinol. Yr oedd un ymadrodd cyffredin iawn gynt ymhlith y Saison ag sydd yn dwyn tebygolrwydd mawr i'r *bera elohim* yma: sef *you was,* pan ei harferid ef am un person. Eithr y mae gramadegwyr diweddar wedi newid y dull hwn, gan ddywedyd *you were;* ond yn hollol anphilosophaidd, debygwn i. O leiaf, nid oes ganddynt yn bresennol ddim gwahaniaeth rhwng *you were* pan yn cael ei arfer am *un* dyn, a phan yr arferir ef am lawer. Beth bynnag am hynny, yr oedd yn arferiad cyffredin gynt i ddywedyd *you was,* ac etto gan y bobl gyffredin. Felly nid yr Hebreaid yn unig a arferent dull o'r fath.

Terfynaf yn awr trwy ddywedyd na ddarfu i neb duwinyddion freuddwydio am drindod oddiwrth eiriau o'r fath, cyn amser Peter Lombard, yn y ddeuddegfed canrif, yr hwn oedd y cyntaf a ddychymgodd hynny!!!

Ymdrechaf wneuthur fy llythyron nesaf yn llai eu maintioli, er hynny, mor gynwysfawr ag a allaf.

Ydwyf, &c.,

O. EVANS.

* [Gwelir oddiwrth y difyniadau Hebraeg uchod fod Mr. E. yn darllen *heb y masoretic points,* ond etto ei fod yn rhoddi y gair *elohim* yn ôl y ffordd arall o ddarllen Hebraeg, sef, *gyda'r points*; gan farnu, ond odid, mai *elohim,* ac nid *aleim,* yw y darlleniad sydd fwyaf adnabyddus i'r cyffredin. Nid yw y gwahaniaeth o ddim pwys yn y ddadl. Ein barn ni yw, mai gwell fyddai cadw wrth yr un ffordd o ddarllen trwy yr oll o'r difyniadau.—GOL.]

AGOR TAI-CYRDDAU.

Mr. Ymofynydd,—Mewn attebiad i'm sylwadau ar y gwaith o agor Ty-cwrdd yr Undodiaid yng Nghaerfyrddin, dywed y Parchedig Dafydd Llwyd, A.M. gweinidog y "Capel" fel hyn. "Yn awr ymhlith yr holl siamplau sydd ar gael o *wag-resymmu* credaf mai anhawdd fyddai cwrdd ag un lle y mae y casgliad *(inference)* yn fwy ammherthynasol i'r *premises*, nag ydyw yr haeriad hwn. *Fe agorwyd ty cwrdd*—yn ganlynol buwyd gyda'r hên arfer Babaidd o gyssegru addoldai!! Lle mae awydd i weled a nodi bai, fe a *logic* a phob peth arall dros gof." Pan y byddo yr amcan yn ddrwg mae hynny yn ddichonadwy; ond yr ydwyf yn hŷ yn llefein allan dieuog ydwyf fi; a bydded darllenwyr yr Ymofynydd yn farnwyr. I ddangos hyn, yn gyntaf, gosodaf o'u blaen ystyr y gair Cyssegru. Yn *Dr. Beard's Dictionary of the Bible* "Consecrate (cum *with* and sacer *sacred*) *to appropriate to sacred purposes.*" Dywed Walker am y gair "*consecration,*" neu cyssegriad, "*A rite of dedicating to the service of God: the act of declaring one holy.*" Gwyr pob un ag y sydd yn hyddysc yn yr iaith Ladin fod y geiriau Saisnaeg *consecrate, and consecration,* wedi eu ffurfio o'r gair Lladin *consecro,* ac ystyr hwnnw yn Dr. Davies ydyw, yn gyntaf, gyssegru; yn ail, sancteiddio; yn drydydd, nefoli. Felly ynte y mae pob ty ag y sydd wedi ei "*agor*" (dedicate was the word used at Carmarthen) yn un cyssegredig. Ond rhag cael fy nghyhuddo o *neidio,* am un waith yn ychwaneg, adroddaf y geiriau a ddarllenwyd gyntaf (a fyddai yn rhy bell i ddywedyd a weddiwyd gyntaf) yno. Maent i'w gweled yn yr viii o 1 Brenhinoedd ac o'r 22 adnod hyd y 54, fel hyn:—

"A Solomon a safodd o flaen allor yr Arglwydd, yngŵydd holl gynnulleidfa Israel; ac a estynodd ei ddwylaw tua'r nefoedd. Ac efe a ddywedodd. O Arglwydd Dduw Israel, nid *oes* Duw fel tydi, yn y nefoedd oddi uchod, nac ar y ddaiar oddi isod, yn cadw cyfammod a a thrugaredd a'th weision fydd yn rhodio ger dy fron di â'u holl galon; Yr hwn a gedwaist â'th was Dafydd fy nhad yr hyn a lafaraist wrtho: traethaist hefyd a'th enau, a chwpleaist â'th law, megis heddyw y *mae.* Ac yn awr, O Arglwydd Dduw Israel, cadw a'th was Dafydd fy nhad yr hyn a lafaraist wrtho, gan ddywedyd. Ni thorrir ymaith oddi wrthyt *na byddo* gŵr ger fy mron i yn eistedd ar deyrn-gadair Israel, os dy feibion a gadwant eu ffordd i rodio ger fy mron i, megis y rhodiaist ti ger fy mron. Ac yn awr, O Dduw Israel, boed gwir attolwg, fyddo dy air a lafaraist wrth dy was Dafydd fy nhad, Ai gwir yw y preswylia Duw ar y ddaiar? wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd ni allant dy gynnwys di! pa faint llai y *dichon* y tŷ hwn a adeiledais i? Etto edrych ar weddi dy wâs, ac ar ei ddeisyfiad ef, O Arglwydd fy Nuw, i wrando ar y llef a'r weddi y mae dy wâs yn ei gweddïo heddyw ger dy fron di; Fel y byddo dy lygaid yn agored tu a'r tŷ ymma nôs a dydd, tu a'r lle y dywedaist am dano, Fy enw a fydd yno; i wrando ar y weddi a weddio dy was yn y lle hwn. Gwrando gan hynny ddeisyfiad dy was, a'th bobl Israel, pan weddiant yn y lle hwn: clyw hefyd o le dy breswylfa, *sef* o'r nefoedd; a phan glywch, maddeu. Os pecha gŵr yn erbyn ei gymydog, a gofyn gantho raith, gan ei dyngu ef, a dyfod y llw o flaen dy allor di yn y tŷ hwn: Yna clyw di yn y nefoedd, gwna hefyd, a barna dy weision, gan ddamnio y drygionus i ddwyn ei ffordd ef ar ei ben, a chan gyfiawnhâu y cyfiawn, trwy roddi iddo ef yn ôl ei gyfiawnder. Pan darawer dy bobl Israel o flaen y gelyn, am iddynt bechu yn dy erbyn di, os dychwelant attat ti, a chyfaddef dy enw, a gweddio, ac ymbil â thi yn y tŷ hwn: Yna gwrando di yn y nefoedd a maddeu bechod dy bobl Israel, a dychwel hwynt i'r tir a roddaist i'w tadau hwynt. Pan gauer y nefoedd fel na byddo gwlaw, o herwydd pechu o honynt i'th erbyn; os gweddiant yn y lle hwn, a chyfaddef dy enw, a dychwelyd oddi wrth eu pechod, pan gystuddiech di hwynt. Yna gwrando di yn y nefoedd a maddeu bechod dy weision, a'th bobl Israel, fel y dysgech iddynt y flordd orau y rhodiant ynddi: a dyro wlaw ar dy dir a roddaist i'th bobl yn etifeddiaeth. Os bydd newyn yn y tir, os bydd haint, llosgfa, malldod, locustiaid; os bydd y lindys: pan warchaeo ei elyn arno ef, yngwlâd ei ddinasoedd, pa blâ bynnag, pa glefyd bynnag *a fyddo*; Pob gweddi, pob deisyfiad, a fyddo gan un dŷn, *neu* gan dy holl bobl Israel, y rhai a wyddant bawb bla ei gâlon ei hun, ac a estynnant eu dwylaw tu a'r tŷ hwn: Yna gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a maddeu; gwna hefyd, a dyro i bob un yn ôl ei holl ffyrdd, yr hwn yr adwaenost ei galon; (canys ti yn unig a adwaenost galonnau holl feibion dynion.) Fel y'th ofnant di yr holl ddyddiau y byddont byw ar wyneb y tir a roddaist i'n tadau ni. Ac am y dieithr-ddyn

hefyd ni *byddo* o'th bobl Israel, ond dyfod o wlad bell er mwyn dy enw; (Canys clywant am dy enw mawr di, a'th law gref, a'th fraich estynnedig,) pan ddêl a gweddio tu a'r tŷ hwn: Gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a gwna yn ôl yr hyn oll a'r a lefo y dieithr-ddyn arnat am dano: fel yr adwaeno holl bobl y ddaiar dy enw di, i'th ofni di, fel *y mae* dy bobl Israel, ac y gwypont mai ar dy enw di y gelwir y tŷ hwn a adeiledais i. Os a dy bobl di allan i ryfel yn erbyn eu gelyn, ar hŷd y ffordd yr anfonych hwynt, os gweddiant ar yr Arglwydd *tu a* ffordd y ddinas a ddewisaist ti, a'r tŷ yr hwn a adeiledais i'th enw di: Yna gwrando yn y nefoedd ar eu gweddi hwynt, ac ar eu deisyfiad, a gwna farn iddynt, Os pechant i'th erbyn, (canys nid *oes* dŷn ni phecha) a digio o honot wrthynt, a'u rhoddi hwynt o flaen eu gelynion, fel y caeth-gludont hwynt yn gaethion i wlad y gelyn, ym mhell neu yn agos; Os dychwelant at eu calon, yn y wlad y caeth-gludwyd hwynt iddi, a ddychwelyd, ac erfyn arnat yngwlad y rhai a'u caeth-gludasant, gan ddywedyd, Pechasom, troseddasom hefyd, a gwnaethom yn annuwiol; A dychwelyd attat ti â'u holl galon, ac a'u holl enaid, yngwlad eu gelynion a'u caeth-gludasant hwynt, a gweddio arnat ti tu a'u gwlad a roddaist i'w tadau, a'r ddinas a ddewisaist, a'r tŷ a adeiledais i'th enw di: Yna gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, eu gweddi hwynt, a'u deisyfiad, a gwna farn iddynt. A maddeu i'th bobl a bechasant i'th erbyn, a'u holl gamweddau *yn* y rhai y troseddasant i'th erbyn, a phar iddynt gael trugaredd ger bron y rhai a'u caeth-gludasant, fel y trugarhaont wrthynt hwy. Canys dy bobl di a'th etifeddiaeth *ydynt* hwy, y rhai a ddygaist ti allan o'r Aipht, o ganol y ffwrn haiarn; Fel y byddo dy lygaid yn agored i ddeisyfiad dy wâs, a deisyfiad dy bobl Israel, i wrando arnynt hwy, pa bryd bynnag y galwont arnat ti. Canys ti a'i neilltuaist hwynt yn etifeddiaeth i ti, o holl bobl y ddaiar, fel y llafaraist trwy law Moses dy wâs pan ddygaist ein tadau ni allan o'r Aipht, O Arglwydd Dduw. Ac wedi gorphen o Solomon weddio ar yr Arglwydd, yr holl weddi, a'r deisyfiad ymma, efe a gyfododd oddi ger bron allor yr Arglwydd, o ostwng ar ei liniau, ac o estyn ei ddwylaw tu a'r nefoedd."

Ar ôl canu emyn (clywais gan un oedd yno) ddarfod iddynt (os oeddent yn dywedyd amen hefyd gyda y gwr) weddio dros y pridd a'r cerrig. Mae rhai o'r gweinidogion anghysegredig, oeddent a llaw yn y gwaith yn gwadu hyn. Er fy mod yn credu fod hyn yn wir, ni seiliaf un ymresymmiad arno, rhag i'r cyhuddedigion i ddywedyd fy mod yn anhêg. Digon yw ádrodd geiriau Selyf, neu Solomon, a arferwyd yno, i'r diben i brofi na neidiais i'r casgliad, fod y ty-cwrdd wedi ei gyssegru (*"Dedicated,"* oblegid dywedwyd ragor nag un waith *"we dedicate."* Gadawaf i'm darllenwyr yn awr i farnu, pa un ai neidio a wnaethym i'r casgliad, fod y ty wedi ei gyssegru, pan cafodd ei *"agor"* ai peidio: ac af ym mlaen at bethau mwy eu pwys.

Gweddi brenhin Israel wrth *"agor ty-cwrdd newydd"* yn Jerusalem sydd yn Brenhinoedd, a pha effaith a gafodd ar genedl Israel braidd y mae eisiau sylwi. Digon yw dywedyd eu bod yn barnu er nad allai "y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, gynnwys Duw" etto nad oedd Duw yn gwrando gweddi yn un man arall. O'r ochr arall yr oedd y Samariaid wedi *"agor ty-cwrdd newydd"* ar fynydd Gerizim tua 350 cyn Crist; ac o'r farn fod Duw yn gwrandaw gweddi yno, heb achos myned i Jerusalem. Yr ydoedd y ddwy genedl o'r farn, bod yn rhaid cael teml gyssegredig, neu dy cwrdd newydd wedi ei *"agor,"* cyn y gallai dyn addoli Duw. Beth ond "agor ty-cwrdd" newydd yn Jerusalem barodd hyn? Cyn dyddiau Solomon y mae profion fod y patriarch yn addoli heb gyssegru temlau: a dywed ein Harglwydd Iesu Grist wrth y wraig o Samaria, yn Ioan iv. 21, 23. "O wraig, cred fi, y mae yr awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Jerusalem * * * Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad, mewn ysbryd a gwirionedd." Ym mhob lle, hyd y nod mewn tai cyrddau heb eu *"hagor;"* ac ym mhob man, ag y byddo calon bur yn dynessu at Dduw. Yn unol a hyn, nid oes sôn yn Actau yr Apostolion, nac yn eu hepistolau ychwaith, am gyssegru temlau; neu yn iaith sathredig yr oes, am "agor tai cyrddau." Nid ydyw yn beth tebyg, fod ty, na Nymphas,* na Philemon wedi ei gyssegru; neu yn iaith Undodiaid Caerfyrddin wedi ei *"agor."*

* Gwel Col. iv. 15; Phil. 2.

Yn wir, ni chydwedda gweddi Solomon ac anian Crist; a peth rhyfedd fod Cristnogion yn ei harfer.

Gwelwn fod "agor ty-cwrdd" Solomon wedi cael effeith ddrwg ar yr Iuddewon gynt; trwy beri iddynt feddwl fod Duw yn cael ei wasanaethu wrth ei fodd yno; ac y gallasent, wedi dyfod allan, fyw yn elynion i'w blant ef: felly sychedasant am waed Iachawdwr y byd.

Pa bryd yr "*agorwyd ty-cwrdd newydd*" gyntaf gan Gristnogion nis gwn, ond yr oedd yn beth cyffredin, yr amser yr adeiladwyd Eglwysi plwyfol Cymru, a Lloegr. Er siampl dywed *the author of Mona*, "Parodd y brenhin Cadwaladr adeiladu Llangadwaladr A.D. 650 a'i chyssegrn ('DEDICATE') iddo ei hun." Gyda'r athrawiaeth o lwgr natur, byddid yn arferol gynt o olchi y ty fyddai yn cael ei "agor," a dwfr sanctaidd, (neu ddwfr, a halen;) am fod y pridd, a'r cerrig yn llygredig. Mae yn wir nad ydys yn gwneuthur y fath beth a thai cyrddau Ymneilduwyr Cymru yn yr oes hon. Onid ôes yma anghysondeb mawr?

Ymddengys fod "agor tai cyrddau" yn tueddu yn fawr i beri i ddynion, gyda'r Iuddewon, feddwl fod mwy o Dduw yno, nag yn un man arall. Maent yn casclu, fod rhyw un yn myned i mewn, na bu yno o'r blaen—fod ei greaduriaid wedi adeiladu anneddle i ogoniant Duw—fod y drws wedi "*ei agor*" iddo gan y "*gweinidogion medrus, a gallwog*," dydd y pregethwyd gyntaf ynddo; a'i fod ynteu yno, yn barod i wrando eu cais, pa un ai cam, ai cynmwys a fyddo. Gwelir un, ar ei ddyfodiad i dy cyssegredig Duw, yn rhoddi ei drwyn yn ei *hat*, ac o'i sefyll, yn gwneuthur gweddi ddirgel ar y Duw sydd yno yn clywed, tra byddo y rhai creill yn canu mawl—arall yn syrthio ar ei liniau, a chan roddi ei ben ar y faingc, yn gweddio yn ddirgeledd ar y Duw sydd yno, pan y mae gweinidog y lle, yn darllen y cyfammod newydd. Ar ôl darfod y gwasanaeth, ânt ymaith gan adael eu Duw wrtho ei hunan ar ol; ac ni phrisiant fawr am dano wedi myned unwaith o'i olwg. Dygant gamdystiolaeth yn erbyn eu cymmydog—cribddeiliant—a chyflawnant aml ddrygau creill, canys ni wêl eu Duw hwynt; o leiaf y maent hwy wedi ei adael yn y ty cwrdd, a "agorwyd" iddo, "*gan weinidogion medrus, a gallwog.*" Felly "eu cydwybod hwy, a hi yn wan, a halogir." Maent ar gyflym hynt tua thywyllwch pabyddiaeth, a phob coel grefydd.

Nid ydyw Mr. Llwyd wedi cynnyg dangos y cyssondeb, sydd i weinidogion anghysegredig i ymgynnull i DDEDICATO tai cyrddau i Dduw. Gallasai gael geiriau pendant y cyfammod newydd, dros neillduo *dynion* i waith y weinidogaeth: ac etto ni cheisiodd gan neb i'w neillduo ef i weinidogaethu yn y ty, a *ddedicatwyd* ar y 29ain, o Awst, 1849, yng Nghaerfyrddin. Dylid bod yn gysson mewn pethau o'r fath, yn hytrach na rhoddi y bryd ar fod yn boblogaidd. Gwel. Gal. ii. drwyddi. Beth ydyw y "camel" a babyddiaeth, y mae Mr. Llwyd yn ei roddi ar ddeall, fy mod i yn euog o'i lyngcu nid ydwyf yn gallu dirnad. Byddaf ddiolchgar iddo am ei nodi allan.

Ydwyf, &c.

J. JONES, *Aberdâr*.

COSP A GWOBR YN EU PERTHYNAS A RHWYMEDIGAETH DYN I WEITHREDU FEL Y GWEITHREDA.

SYR,—Teimlaf yn ddiolchgar i chwi am gyhoeddi'r ychydig linellau a ganlyn yn eich misolyn rhyddgarol, oni fernwch hwynt yn anheilwng o hono.

Dyn yw y creadur mwyaf godidog ar wyneb y ddaear: wedi ei gynnysgaeddu

a galluoedd dyallawl tuhwnt i bob creadur arall, ac a theimladau moesol nad oes eu cyffelyb gan neb creaduriaid daearol ond efe.

Y mae gan greaduriad israddol rai galluoedd dyallawl cyffelyb, a rhai teimladau cyffelyb, i sydd gan ddyn; ond y maent yn hollol amddifad o deimladau moesol, ac o rai math o alluoedd dyallawl a berthynant i ddyn. Ac yn herwydd y diffyg hyn mewn creaduriaid israddol, mae eu gweithredoedd yn fwy unfurf na'r eiddo dyn, Nid yw yn alluadwy effeithio cymmaint arnynt hwy trwy wrteithiad: a chesglir oddiwrth hyn eu bod yn gweithredu oddiar reddf. Tebyg yw nad y's yn ystyried wrth reddf yn y eyssylltiad hyn, unrhyw allu neillduol nac unrhyw *set* o alluoedd. Oblegid dywedir am aderyn pan yn cyweirio ei nyth, ei fod yn gwneuthur hyny oddiar reddf; am y defaid pan yn tyru at eu gilydd yngwyneb perygl; am y wenol, y gôg &c. pan yn mudo yn eu hamser i wledydd pellenig, ac yn dychwelyd yn ol drachefn; am y cysgadur pan yn ymwthio i'w dwll erbyn gauaf; am y wenynen pan yn casglu y mel; eu bod yn gwneuthur hyny oddiar reddf: hyny yw, feddyliwyf, oddiar rhyw deimlad neu deimladau perthynol iddynt hwy eu hunain, yn anymddibynol ar wrteithiad.

Y mae dyn yn gyffelyb mewn rhai ystyriaethau, ac yn wahanol iawn mewn ystyriaethau eraill. Y mae yn *gyffelyb*, am ei fod yn gweithredu bob amser yn ol ei deimladau; ac yn *wahanol* am fod y teimladau hyny mor amrywiog, a chymaint o effaith gan ei alluoedd dyallawl, a chan yr amgylchiadau allanol y mae yn myned drwyddynt ar ei deimladau, fel y gwna dyn fel hyn heddyw, ac y foru fel arall; y bydd efallai am rau o'i oes yn gweithredu 'n aml dan orgynhyrfiad teimladau anifeilaidd, ac yn herwydd hyny yn cyflawni gweithredoedd drwg: a rhan arall o'i oes yn gyffredin dan ddylanwad teimladau mwyaf godidog ei gyfansoddiad, sef ei deimladau moesol, wedi eu cynhyrfu i weithrediad trwy wrteithiad yn benaf, ac yn y cymlyniad yn cyflawni yn gyffredin weithredoedd a ystyria yn dda. Ac yn herwydd y gwahanol alluoedd y mae dyn yn feddiannol arnynt, a'r berthynas gymmysglyd sydd ryngddynt, anhawdd olrhein, a chael allan i eglurdeb, hyd yn ôd bob person iddo ei hun, am dano ei hun, brif achos ynddo ei hun o'i wahanol weithredoedd. A pha faint mwy anhawdd pan gynnygiom flurfio barn am achos gweithredoedd rhai eraill! Ond er yr anhawsdra hyn, mae un gwirionedd yn eglur, sef: *Fod pob dyn yn gweithredu bob amser yn ol y cynhyrfiad cryfaf yn ei feddwl ar y pryd*; i'r hwn y mae pob dyn yn rhwym.

Y cynhyrfiad cryfaf hwn yn y meddwl yw penderfyniad y meddwl: ac y mae dyn mor rwym pan gyflawna weithred, i wneuthur hyny yn ol penderfyniad ei feddwl ar y pryd, ag ydyw i ddyall fel y dyalla, ac i deimlo fel y teimla.

Gwrthddadleuir yn erbyn y dyb hon o fod dyn yn rhwym o gyflawni yr hyn a gyflawna; gan ystyried na fyddai gyfiawn cospi dyn am gyflawni yr hyn oedd rwym o'i gyflawni. Os amheuir cyfiawnder y gosp sydd ynglyn a rhai math o weithredoedd, amheuir yr egwyddor o ddaioni gwobr ynglyn a math arall o weithredoedd; oblegid y mae gwobr ar un llaw, a chosp ar y llaw arall, bob un mor anwahanadwy gyssylltiedig a'n gweithredoedd a'r llall. Pan y dywedir nad yw dyn yn teilyngu gwobr nac yn haeddu cosp, am gyflawni yr hyn oedd rwym o'i gyflawni; nid anghymmwys chwilio, pa beth a feddylir wrth gosp a gwobr anwahanadwy gyssylltiedig a'n gweithredoedd. Wrth *gosp* y meddyliwyf unrhyw boen a ganlyna droseddiad un, neu ychwaneg o ddeddfau y Jehofa, pa un ai anianyddol, cyfansoddiadol, neu foesol: ac wrth *wobr*, o ganlyniad, yr hyfrydwch a deimlir, a'r dedwyddwch a fwynheir yn y canlyniad, o ufyddhau i'r deddfau sonedig, ac o gadw ein hunain a'r eiddom yn y berthynas osodedig â hwynt er lles ein hunain, ac er lles cyffredinol. Er engraifft, y mae perthynas rhyngom a deddf dys-gyrchiad (*gravitation*). Oni bai y berthynas hon, nid allem gerdded

gwyneb y ddaear. Mae y berthynas sydd ryngom a'r ddeddf hon, yn llwyr ofynol er cadw ein bywydau; a thra pharaom i gadw y berthynas â hi sydd briodol i'n cyfansoddiadau, mae y wobr yn canlyn; ond os gosodwn ein hunain yn ei gafael yn ormodol, nes syrthio dros graig, mae cosp gyfatebol i'r trosedd yn sicr o ganlyn. Yn awr os na syrthiodd y dyn o'i *wirfodd*, nid cyfiawn, yn ol yr wrthddadl uchod, ei gospi; am hyny ni chaiff oddef cosp! Ond gwyddom, pa un ai o wirfodd neu o anfodd, fod y gosp gorphorol yr un: ac un o ddybenion y gosp yw cynhyrfu ein dyall a'n teimladau, er gochelyd gosod ein hunain yn agored i droseddiadau o'r fath yn ol llaw.

Pan gyflawnom weithredoedd niweidiol oddiar *gamddyall*, mae cospedigaethau yn canlyn. Pe byddai i ddyn roddi llawer o fwyd i gyfaill mewn twymyn, gyda bwriad i gadw ei nerth; pentyru dillad ar ei wely, ar ei ddiogelu rag anwyd; byddai hyny yn debyg o gynnyddu y clefyd, a gallai fod yn foddion i gymmeryd ymaith fywyd y claf: os felly, cosbid y gweithredydd ac eraill gan, o leiaf, deimladau pruddaidd ac hiraethlawn. Ond yn ol yr wrthddadl uchod, ni fyddai gyfiawn cospi neb am y weithred hon, Ond y mae'n amlwg y byddai y gweithredydd ac eraill yn sicr o gael eu cospi er nad allesid gochelyd achos y gosp yn absenoldeb dyalldwriaeth mwy goleuedig. Y mae pob dyn byw yn cyflawni yn feunyddiol weithredoedd oddiar gamddyall er anghysur a phoen. Pa fodd i ochelyd pob math o weithredoedd cyffelyb, ynghyd a'r cospedigaethau a'u canlynant, ateb-ed y gwrthddadleuydd i foddlonrwydd iddo ei hun. Pan droseddom reolau moesoldeb, mae y gosp yn ddeublyg, sef yn allanol ac yn fewnol—yn *allanol*, drwy iselhau ein cymmeriadau yngolwg aelodau goraf cymdeithas, a pheri iddynt deimlo yn oerllyd tuag attom, a chadw yn mhell oddiwrthym; trwy osod ein hunain yn agored i sarhad ac enllib rhai o deimladau anfoesol. er cywilydd a gwarth—yn *fewnol*; cydwybod euog gyda ni yn mhob man. Efallai na fydd y troseddwr yn teimlo yn edifeiriol am yr hyn a wnaeth, gan hyny y gydwybod yn dawel; os felly bydd yn debyg o gyflawni gweithredoedd cyffelyb wed'yn, ac yn herwydd hyny, y cymmeriad yn myned îs' îs,; y sarhad fwy, fwy; a'r gyfeillach waelach, waelach; a gwneud y cymmeriad yn dda yng ngolwg eraill yn amhichonadwy. Beth bynnag fyddo sefyllfa y teimladau, nid ellir diange rhag cospedigaethau allanol, pa rai ydynt y *checks* goraf, yn absenoldeb dylanwad teimladau moesol y gweithredydd arno ei hun, er rhwystro mynychiad gweithredoedd niweidiol.

Dywedir nad cyfiawn ein cospi am weithredoedd oeddem rwym o'u cyflawni. Ymddengys i mi ei fod yn hollol gyfiawn, am mai canlyniadau ein gweithredoedd ein hunain, a gyflawnwyd yn ol ein penderfyniadau ein hunain oeddynt y cyfryw weithredoedd; ond na fyddai gyfiawn ein cospi am ein gweithredoedd yn ol nn egwyddor arall. Oblegid os na weithredasom yn ol penderfyniad y meddwl; ac os na phenderfynasom yn ol ein dyall a'n teimladau ar y pryd; nid allasai fod perthynas foesol rhyngom a'r gweithredoedd; ac yna nid cyfiawn fyddai ein cospi. Ond y mae daioni y cyfryw gospedigaethau yn ddiamheuol, am eu bod a thuedd i wella, ac yn gwella y cospedig. Ar y llaw arall os gweithredasom yn ol penderfyniad y meddwl, nis gallasem wneuthur yn wahanol, heb benderfynu yn wahanol. Nis gallasem benderfynu yn wahanol, heb naill ai dyall yn wahanol, neu deimlo yn wahanol. Nis gallasem ddyall yn wahanol, na theimlo yn wahanol, heb naill ai gyfansoddiad meddyliol gwahanol, neu fod wedi cael gwrteithiad gwahanol i'r cyfansoddiadau meddyliol sydd gennym. Ac yn absenoldeb un o'r gwahaniaethau uchod, nis gallasem wneuthur ond fel y gwnaethom, sef pob peth a wnaethom oddiar pan yn fabanod, hyd y peth diweddaf a wnaethom. Oblegid yn ol sefyllfa y meddwl ar y pryd, sef fel y dyallem neu y teimlem ar y pryd, y cyflawnasom bob peth a wnaethom; ac yr oeddem mor rwym i sefyllfa y meddwl ar y pryd y

gwnaethom unrhyw beth, ag ydym i sefyllfa y meddwl y funud hon. Nid allwn ddyall a theimlo ar hyn o bryd, ond yn unig fel y dyallwn ac y teimlwn; nid allasem y funud ddiweddaf a aeth heibio. Gwyddom hyn trwy brofiad. A phe gallem bresenoli pob munud o ein bywyd, a dwyn i gof wahanol sefyllfaoedd ein meddyliau yr amser a aeth heibio, tybiwyf na fyddai anhawsdra i ni ddyall ein bod mor rwym i bob gweithred o'r eiddom, ac ydym i sefyllfa ein meddyliau ar hyn o bryd.

Os ydyw y darllenydd yn amheu ei fod yn rhwym i sefyllfa ei feddwl ar hyn o bryd, bydded cystadl ac ymegnio credu yn wahanol i'r modd y mae yn credu, heb un ymchwiliad pellach; bydded iddo gyfnewid ei feddwl am bum munud, a chredu yn sefydlog y pum munud nesaf, yn groes idd ei gred sefydlog yn awr; a chyfnewid yn ol yn mhen pum munud wed'yn i'r un sefyllfa ag oedd cyn gwneuthur y prawf, Os na ellir gwneuthur hyn, rhaid ein bod yn rhwym y funud hon i gredu fel y credwn, a chan mai yr un berthynas oedd rhwng ein gweithredoedd oll a sefyllfa ein meddyliau ar y pryd, ag sydd rhwng ein gweithredoedd y funud hon, a sefyllfa ein meddyliau yn awr; rhaid ein bod mor rwym i weithredu yn ol sefyllfa ein meddyliau bob pryd, ag ydym ar hyn o bryd; a bod sefyllfa ein meddyliau mor rwym i fod fel oeddynt, bob munud o'n bywydau, ag ydynt i fod yn awr fel y maent. Yr ydym yn barod i ddyweyd pan yn edifarhau am rhyw beth a wnaethom, y gallasem yn hawdd beidio. Mae yn wir y gallasem beidio a gwneuthur llawer o bethau a wnaethom, pe buasem tan ddylanwad yr un teimladau cyn, a phan yn cyflawni y gweithredoedd, ag oeddem pan yn edifarhau o'u herwydd; (a buasem yn peidio hefyd) ond y mae yn amlwg nad oeddem, oblegid cyflawnasom y gweithredoedd.

Dywed ambell un nad ydym yn gweithredu bob amser fel yr ewyllysiom. Mae cywirdeb neu anghywirdeb y dywediad yn ymddibynu ar yr hyn a feddylir wrth ewyllys; os ydys i feddwl wrth y dywediad uchod, nad ydym wedi gweithredu bob amser fel y dyallwn y dylem er lles ein hunain ac eraill, gallai y dywediad fod yn gywir; am y gallai rhyw deimlad neu deimladau ynom, beri i ni weithredu yn groes i'n ddyall. Neu os ydys i feddwl wrth y dywediad, nad ydym wedi gweithredu bob amser fel y dyallwn ac y teimlem oni bai rhyw amgylchiadau allanol y byddom ynddynt; gallai y dywediad fod yn gywir: sef ewyllysiem weithredu yn wahanol pe buasai modd gennym, neu pe buasai amser gennym, neu pe buasai rhyw amgylchiadau allanol yn wahanol i'r hyn oeddynt. Ond os ydys i feddwl wrth y dywediad, nad ydym wedi gweithredu yn ol penderfyniad y meddwl ar y cwbl yng ngwyneb yr amgylchiadau allanol fyddom ynddynt, mae y dywediad yn anghywir; am nad ydym feddiannol ar neb gallnoedd ond sydd gennym i benderfynu, neu ewyllysio pa beth a wnawn. Nid yw amgylchiadau allanol o ba fath bynnag y byddont ond cymhellion yn unig a effeithia arnom yn ol sefyllfa y meddwl ar y pryd, hyny yw a effeithia arnom yn ol gradd ein gwybodaeth; ac yn ol parodrwydd neu anmharodrwydd rhyw deimlad, neu deimladau i gydffurfio, neu anghydffurfio a'r hyn a gymmellir. Nid ydym rwym i gymhellion allanol, ond yn unig i benderfyniad y meddwl yng ngwyneb y cymhellion: oblegid gwelwn yn aml yr un cymhellion allanol yn effeithio fel hyn ar un, fel arall ar un arall, yn ol eu barn, neu eu teimladau, neu yn ol eu barn a'u teimladau ar y pryd, sef yn ol y cynhyrfiad cryfaf yn y meddwl ar y pryd, i'r hwn y mae dyn yn rhwym. Chwi a welwch yn mha ystyr yr ydym yn rhwym, yn ol yr ystyriaethau uchod; sef rhwym i *sefyllfa ein meddyliau*. Nis gwn pa fodd y gall neb amheu ein bod yn rhwym yn yr ystyr hyn. Ac os ydyw yn wirionedd ein bod yn rhwym i sefyllfa ein meddyliau, ni ddylem wadu, nac amheu y gwirionedd am yr *ymddengys* i ni ei fod

yn arwain i ganlyniadau gwrthun. Tebyg yw ei fod yn hawddach i ni ganfod gwirionedd, nac olrhein ei ganlyniadau i fanylwch a pherffeithrwydd.

Ond er nad ydym rwym i amgylchiadau, neu gymhellion allanol yn yr un ystyr ag ydym i sefyllfa ein meddyliau; mae cymmaint o ddylanwad gan gymhellion, ac amgylchiadau allanol arnom fel y gellir dywedyd eu bod a rhan fawr yn ffurfiad ein cymmeriadau. Mae sefyllfa ein meddyliau ar y pryd hyn idd ei briodoli yn rhanol i ein galluoedd dyallawl a'n teimladau naturiol; ac yn rhanol i'r amgylchiadau allanol ydym wedi myned drwyddynt; ac yr ydym yn gyfrifol yn ol yr ystyriaethau uchod am yr hyn a gyflawnwn, yn gyntaf i gymdeithas, am fod perthynas rhwng ein gweithredoedd ni ac eraill yn ein cymmydogaeth, a rhwng yr eraill hyn, ac eraill wed'yn &c. Ac yn ail i Achosydd mawr ein bodoliaeth yn ein perthynas a deddfau gasodedig y Creawdwr, mewn ystyr anianyddol, gyfansoddiadol, a moesol.

Dinas, Yr eiddoch, &c.
Ionawr 14, 1850. R.

Mr. Ymofynydd,—A mi heb ddim amgen i'w wneuthur ar hyd yr hâf 1827, newydd adael yr Athrofa, cymmerais y difyrrwch o gyfieithu y dernyn canlynol o'r *Monthly Repository* am Orphenaf yn y flwyddyn honno. Os nad oes gennych fwy defnyddiol peth i'w roddi yn eich cyhoeddiad efallai y carech ei roddi o flaen eich darllenwyr. Ydwyf &c.

John Jones, *Aberdâr.*

COSP DDIRPRWYOL.

Ar y 26ain o Dachwedd 1824, aeth Mr. Angelini, Proffesswr ieithoedd, o flaen Arglwydd Mayor (Llundain) i'r *Mansion House* a dywedodd yn y modd canlynol.

"Fy Arglwydd dylai yr hwn a droseddodd y gyfraith farw trwy glêdd cyfiawnder. Dylai Mr. Fauntleroy farw trwy glêdd cyfiawnder. Pa fodd bynnag os cymmer arall ei ddeddfle, yr wyf yn barnu y dylai cyfiawnder fod yn foddlawn. Yn awr yr wyf fi yn rhoddi fy hun dros Fauntleroy. Yr wyf yn cymmeryd ei bechod ef arnaf fy hun: ac yr wyf yn dymuno marw i'w gadw ef. Mae ef yn *dad,* mae yn ddinasydd; mae ei fywyd yn wasanaethgar. Mae fy un i yn faich i'r byd. Yr wyf mewn iechyd da, mae cymeddfau fy meddwl yn eu llawn nerth. Nid wyf yn ceisio hyn i wneuthur sôn am fy nghymmygiad, ond fel ffafr."

Aeth Mr. Angelini ymmlaen i gynnal ei gais, gael marw ar y crogbren, gydag egni ymarweddiad mawr, ac ymddangosiad allanol anghyfredin o ddidwylledd.

Amlygodd yr Arglwydd Mayor ei syndod am y fath gais gressynus, a dywedodd ei fod yn ammeu fod y dyn yn ei iawn bwyll—Dywedodd Mr. Angelini gyda gwres mawr ei fod ef yn hollol iawn yn ei bwyll * * * Hybyswyd ef ei bod yn groes i bob cyfiawnder, ac i bob arferiad hefyd, fel y gallai dyn o'i ddygiad i fynu ef wybod, i fywyd dyn dieuog gael ei gymmeryd yn ddirprwy, yn lle bywyd un ag oedd yn euog, er mor barod y gallai y dieuog i fod i wneuthur yr aberth. Dadleuodd Mr. Angelini oddiwrth siampl Crist yn marw dros yr euog, ac ystyriaethau eraill ond yn ddieffeith.

Ar y dydd canlynol aeth at Ordinari Newgât, gan ddywedyd ei fod wedi dyfod i gymmeryd deddf-le y condemniedig, gan ddymuno yn fawr iawn i fywyd y dyn hwnnw gael ei arbed er mwyn ei wraig a'i deulu.

Dyna y fact hanesiol fel yr adroddid hi yn yr argraph-wasgc, ar yr amser

hwnnw. Bwriwn fod yr ymddiddan a'r Ordinari yn cael ei dwyn ym mlaen, oni allasai fod rywbeth yn debyg i'r hyn a ganlyn?

Nid ydym yn meddwl dywedyd fod y fath ymddiddan wedi cymmeryd lle; oblegid y gwir yw, fod yr Ordinari ar y pryd ar fyned i weinyddu y Sacrament: ac ar ôl edliwio a Mr. Angelini ar afresymmoldeb ei gais, wrth gael allan mai pa fwyaf o wrthwynebiadau a gynnygai ef mwyaf i gyd oedd ei ystwr, dymunodd ar un o'r swyddogion i ymddiddan ac ef ar y pwnge. Aeth Angelini yn ddisymwyth allan wedi dangos ei ofid am na chawsai farw ar y crogbren,

Pa fodd bynnag er egluro egwyddorion cais Angelini, a phall yr Arglwydd Mayor, heb ryfygu cymmeryd y rhydd-did lleiaf ar yr Ordinari Parchedig, bwriwn fod yr ymddiddau wedi myned ym mlaen rhyngddo ac Ordinari dychymmygol yn ei le, fel y canlyn.

Y Parchedig Ordinari a Mr. Angelini—Chwareufwrdd, Newgât:

Ordinari. Ar ba egwyddor yr ydych chwi Mr. Angelini yn para i wneuthur y cais hynod anghyffredin?

Mr. Angelini. Hynod anghyffredin!

O. Ie. rhaid i mi ddywedyd, Hynod anghyffredin.

A. Nid heb ei fath pa fodd bynnag; ond mae yn syndod gennyf finnau eich bod *chwi* yn ammau yr egwyddorion ar y rhai y gellir sylfaenu fy nghais i, rhaid imi addef.

O. Pa fodd hynny?

A. Am eu bod yn egwyddorion nid yn unig o weithrediad cyffredin, ond trwy yr holl fyd—egwyddorion unol a syniadau, ac arferion dynolryw ym mhob oes, a gwlad—egwyddorion yn cydweddu a natur, a'r rhai ydynt yn gwneuthur i fynu yspryd a sail y ffydd Gristnogol.

O. Yr ydych yn cymmeryd cylch helaeth i'ch ymresymiad, er na allaf fi gael allan pa fodd y mae yn perthyn i'ch cais. Yr ydych yn chwennych cael eich derbyn fel dirprwy Fauntleroy anffodiog: yn awr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych yn eglur (yr hyn raid eich bod chwi eich hun yn ei wybod) nad yw y gyfraith yn caniatau y fath ddirprwy: ac nid ydyw yn unol ag arferion dynolryw; nac yn gyson a gweinyddiad barn.

A. Fe allai nad yw fy nirprwyad i yn hollol unol ag arferion dynolryw, oblegid ychydig sydd i'w cael mor anhunanol, ag i roddi eu bywydau i lawr i achub eu cydgreaduriaid a fyddont euog, am hynny y mae y gyfraith yn cymmeryd ei chwrs arferol. Oud pe digwyddai i un gynnyg ei hun, fel yn bresennol, yr hwn a fyddai a'i ddymuniad taeraf i gymmeryd arno ei hun fai cyfaill oddiar ei gariad atto, ac i ddioddef yn ei le; a allai y gyfraith gael dim o'i boddloni, a phob diben cyfiawnder gael ei hollol ddwyn i ben?

O. Nid wyf yn gweled pa fodd y mae hyn yn bossibl. Nid yw y gyfraith yn gofyn, ac ni all chwaith dderbyn un iawn gennych chwi: oblegid ni wyddys eich bod chwi mewn un modd wedi ei throseddu hi, Pe bae i chwi gau hynny ddioddef marwolaeth trwy ganiatäd y cyfraith, byddai i ddibenion cyfiawnder, yn lle cael eu dwyn i ben, gael eu gwyrdroi yn y modd mwyaf gwarthus: oblegid y mae cyfiawnder yn gofyn i'r dieuog gael ei ymddiffyn, a'r euog yn unig gael ei gospi.

A. Ond a all dim dirprwy gael ei ganiatau? Oni allaf fi gynnorthwyo dyn fo yn cwynfan dan ei faich, a'i gymmeryd arnaf fy hun, ac hyd y nod ei ddwyn yn ei lê ef i'r lle appwyntiedig? Pe gwypid fy mod i yn wr o gyfoeth mawr, a wrthodid fi fyth i fod yn faichniydd dros arall, ag a fyddai wedi syrthio i ychydig o ddyled? Pe buasai Fauntleroy wedi ei garcharu am ddyled yn lle *forgery*, ydych chwi yn meddwl y byddai i'w ofynwyr ei gadw yn y carchar pe bawn i yn dyfod ym mlaen a thalu ei holl ddyledion, am mai myfi ac nid efe fuasai yn talu? Neu

a'u gadael hwy mor ffol, a dâll i'w helw eu hunain, a allai un gyfraith neu gyfiawnder fy rhwystro i roddi iddo ef ddigon o arian i'w talu hwy ôll yn llawn? Gan hynny os nad ydych yn caniatau dirprwy, yr ydych yn gosod terfyn nid yn unig ar bob caredigrwydd rhwng dyn a dyn; ond hefyd ar bob cyfrinach mewn cymdeithas; ond tra parhao egwyddoriou ein natur yr un, nis gallwch wneuthur hynny. Am hynny os nad oes dim yn cael ei ofyn, na'i dderbyn yn fwy cyffredin ym masnach dynol-ryw na dirprwy, paham nas gall gael eu dderbyn mewn materion einioes ac angau, fel ym mater Damon a Pythias? Ond dirprwyaeth yw yr unig egwyddor sydd yn dal, ac yn rhwymo cymdeithas yng nghyd. Attolwg beth ydyw ein milwyr, a'u morwyr dewrion, ond cynifer o ddirprwyon dros ereill o'u cydwladwyr, yn barod, er eu mwyn hwy, i anturio i berygl ac angau? Yn lle eu dirmygu, y maent yn cael eu groesawu fel amddiffynwyr a gwroniaid eu gwlâd. Ystyrir hyd y nod eu marwolaeth yn ogoneddus, a chyfodir cofadeiladau mawrion er dwyn ym mlaen eu clod i'r oesoedd i ddyfod.

O. Mae yr *interest* yr ydych yn ei gymmeryd yn yr achos hwn yn eich cam arwain chwi. Tra yr ydych yn cael eich tywys yn fwy gan eich teimlad na'ch ymbwyll, nid yw ryfedd eich bod yn casclu eich bod wedi fy ngorchfygu i ag ymresymiad, tra nad yw ddim amgen na gwâg areithyddiaeth: *Vox et preterea*—Esgusodwch fi, chwi wyddoch y gweddill. Ond cymmerwn eich engreiphtiau, a chwiliwn hwynt, a chewch weled fod y gyffelybiaeth mor bell o fod yn dda ag i fethu yn hollol yn y pethau mwyaf eu pwys.

A. A ydych chwi yn dal ynte na all dim neb gael ei gymmeryd yn ddirprwy yn lle y llall?

O. Ydwyf mewn rhai achosion.

A. Pa wahaniaeth sydd rhwng cynnorthwyo dyn o dan falch trwm, oddiwrth ei gynnorthwyo o dan ddedryd y gyfraith?

O. Os bydd baich yn rhy drwm i ddyn nid ydyw yn rhwymedig o'i ddwyn ef; neu os bydd yn rhaid ei ddwyn i bellder mawr nid oes eisiau fawr doethineb i'w rannu môr fân ag i gael ei ddwyn yn rhwydd.

A. Ond beth os na ellir ei rannu heb y niwaid mwyaf iddo?

O. Yn yr amgylchiad hynny rhaid cael cynnorthwy, neu adael iddo.

A. Nid oes gennych un gwrthwynebiad i un a fyddo fwy galluog ac yn foddlon i'w ddwyn yn ei lê ef i wneuthur hynny?

O. Nac oes yn sicr.

A. Paham ynte na chaf fi ddwyn baich dedryd Fauntleroy?

O. Pa beth ydych yn ei feddwl wrth faich ei ddedryd?

A. Y baich—y pwys hwnnw, gan yr hwn y mae ei ysbryd yn awr yn cael ei lethu, a'r hwn ar fyr a'i dyg i'w fêdd.

O. Nawr, attolwg ystyriwch i ba le y mae eich ymadroddion yn arwain, ac na chamgymmerwch eiriau ffigiwredd yn lle rhai llythyrennol. Y mae eich eglurhad yn hollol gydmariaethol, ond pa nerth sydd yn y fath ymresymiad? Y mae yn sylfaenedig yn hollol ar debygolrwydd, ond cofiwch nid gwirioredd yw y tebygolrwydd hynny. Gyda'r priodoldeb mwyaf gallwch gydmaru trallod presennol Fauntleroy yng nghyd a'r dihenydd sydd yn ei aros, i faich dan yr hwn yn y cyfamser y mae ef yn syrthio, ac yn y diwedd y sodda yn angeu. Ond tra y'ch goddefir fel hyn i lefaru yn *fetaphoraidd* nid ydych mewn natur o gymmaint bwys (os goddefir y dywediad) i weithredu yn *fetaphoraidd*, gan anghofio trwy yr holl amser eich bod yn boddloni eich hunan, ac yn ymdrechu boddloni eraill hefyd, a chysgod yn lle sylwedd; a'r ddelw heb y person y mae hi yn lun iddo, ac yn dymuno boddloni y gyfraith a ffug o gyfiawnder.

A. Ffug o gyfiawnder!

O. Beth amgen na ffug y gellir ei alw? neu os ydych yn dewis, gellwch ei alw yn ffigiwredd, bu'm ar ddywedyd, darluniad gwatwarus o gyfiawnder—ond nid ydyw hyd y nôd yn hynny.

A. Nid ydwyf fi ddim yn eich deall chwi yn iawn.

O. Wel ynte trown yr eglurhad y ffordd arall. Bwriwch fod y gyfraith yn cymmeryd gafael ar y ddelw yn lle y person ei hun; beth a feddyliech chwi am y gyfraith?

A. Yn wir, nis gallaf ffurfio un farn nes y byddoch yn fwy eglur, a dealladwy.

O. Bwriwch fod lladrad, neu lofryddiaeth yn cael ei ddangos ar y chwareufa (stage); pe bai i'r gyfraith i osod i farwolaeth y chwarewr, am iddo bersonoli y lofrydd, dyna fyddai cospi ffug y drwg. Yn yr un modd pe derbyniai y gyfraith chwi yn lle Fauntleroy, a'ch rhoddi i farwolaeth, ni byddai galw ffug cyfiawnder ar hyn ond iaith ddof, oblegid ni fyddai ddim amgen na *Llofryddiaeth gyfreithiol.*

A. Ond ni fyddai, a mi yn foddlawn i ddioddef.

(*I'w barhâu.*)

AMSEROEDD ENBYD.

LLYTHYR II.

Mr. Gol.—Yn fy'm llythyr cyntaf daethum i waered â'r "*amseroedd enbyd*" hyd ddinystr Caersalem: a chafwyd yma eithaf profion o'r amseroedd hynny, ac o gyflawniad trwadl o broffwydoliaeth un am ei eirwiredd a grogwyd ar bren. Taflaf yn awr fyrr olwg ar yr amseroedd hynny mewn cyssylltiad a'r rhagfynegiadau dywededig, yn ôl hanes Josephus ac eraill; y *gau "Gristiau,* y *rhyfeloedd* a'r *sŵn am ryfeloedd* ac *arwyddion yn y Nef,"* y rhai oeddynt oll yn rhagflaenori *diwedd y byd* Iuddewig.

Cyfododd llawer o gau Gristiau, yn enwedig Aifftiwr, yr hwn a ddenodd i'w ganlyn i'r diffeithwch dros 30 mil, y rhan fwyaf o ba rai a osodwyd i farwolaeth trwy orchymmyn *Felix,* a'r lleill a wasgarwyd. Yn amser *Nero* hefyd bu gau Gristiau lawer, y rhai a dwyllasant lawer, ac ym mron yr "etholedigion," sef canlynwyr Crist. Bu rhyfeloedd enbyd yn rhagflaenu yr amseroedd hyn Yn rhyfel *Syria* collodd yr Iuddewon 20 mil o fywydau.

Ac yn y rhyfeloedd canlynol a'r rhai hyn collwyd yn gyfan . . 80,000
Yn Scythopolis . . 13,000
Yn Ptolemais . . 25,000
Yn Alexandria . . 50,000
Yn Namascus . . 10,000

Yn gwneuthur i fynu 178,000

Bu newyn mor fawr hefyd fel ag yr oedd prinder yn dirwasgu gymmaint ar y dinaswyr anffodus, nes y bu feirw llawer iawn o eisiau ymborth.

Bu daeargrynfeydd hefyd mewn llawer o fannau. Ond nid oedd yr holl bethau hyn ond cysgodau mewn cydmariaeth i'r "amseroedd enbyd" at ba rai y cyfeiriais yn fy llythyr blaenorol.

Edrycheda darllenydd ar y rhifoedd canlynol, a dyweded os gall, nad "amseroedd enbyd" oeddynt!

Lladdwyd yn y Gwarchae . 1,100,000
Yn yr amryw ryfeloedd . 157,000

Yn gyfan . . 1,257,000
Heblaw hyn cymmerwyd yn gaethion . . . 97,000
Bu farw o'r newyn . . 11,000
Lladdodd Titus o barch i ddydd genedigaeth ei frawd 2,500!!

O! aruthr, ac arswydus amseroedd! O Gaersalem annedwydd! Syrthiodd dy goron. Symmudodd y gogoniant oddiwrth Israel, a gwerthwyd ei wlad i estroniaid. Perchenogwyd hi gan Rufeiniaid, Saraseniaid, Ffrancaiaid &c. Y mae yn awr ym meddiant canlynwyr Mahomet.

Y mae yr Iuddewon yn awr yn wasgaredig dros wyneb y ddaear; ond etto, er hynodrwydd mawr, mae rhyw neillduolrwydd annirnadwy a chyssondeb digyffelyb yn perthyn iddynt. Nid oes hanes gan neb a welais i, fod neb wedi gweled *Iuddew yn cardotta bara* erioed. A meddyliais lawer gwaith mewn gwlad dramor, lle mae llawer o honynt, ac yn y wlad hyn, am eiriau y Salmydd, "Mi a fu'm yn ieuangc, ac yr ydwyf yn hen, etto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, neu ei hâd yn cardotta bara," Salm. xxxvii. 25.

Gadawn yn awr yr Iuddewon a'u hanffawd, a chymmerwn gip-olwg ar hanesyddiaeth "yr amseroedd enbyd" mewn cyssylltiad a phethau agosach attom, a phethau crefyddol yn bennaf. Da y gwyddai ein Harglwydd Iesu

Grist er ei fod wedi dyfod ag Efengyl Hédd i'r byd, sylfaenedig ar gariad ac ewyllys da, ei fod ar yr un pryd yn dyfod *i dafiu tân hefyd ar y ddaear*, a rhwygiadau ym mysgc meibion a merched dynion; a hynny oddiar amherfleithrwyd y rhai ag oedd a fynno yr Efengyl a hwynt. Yn llaw yr anwybodus mae y doniau a'r offerynau mwyaf perffaith yn agored i gael eu camddefnyddo. Yn fuan ar ol dinystr Jerusalem y dechreuodd anghydfodau ac ymrysonau &c rhwng proffeswyr Cristnogrwydd, er yr holl symlrwydd sydd amlwg yn cyfansoddi sylwedd y grefydd hon ac yn profi ei bod o Dduw: hyn a arwaenodd i erledigaeth grefyddol, yr hyn sydd yn britho dail hanesyddiaeth yr Eglwys o amser merthyrdod Apostolion Crist i waered hyd at dreisiol erledigaethau y rhai a esgynasant yn lladronaidd i seddau prophwydi Duw; y rhai a ymfoddlonasant i sengu ar yddfau y trueiniaid odditanynt, ac a fynnent dreisio eu cydwybodau. Edryched y darllenydd pan y b'o cyfleusdra yn rhoi i hanes amseroedd Calfin a rhai diwygwyr eraill! Rhodded un deigryn o goffadwriaeth a pharch i'r duwiol Servetus.

Tafler golwg hefyd ar erledigaethau arswydus y Pabyddion, ac ar hanes yr Eglwys dan deyrnasiad *Mari waedlyd*. Pwy all feddwl am danynt heb ochenaid! Ymddangosodd y Grefydd Gristnogol fel morwynig hardd yn dwyn palmwydd yn ei llaw ac yn cyhoeddi heddwch. Daeth a gwênau ar ei gwedd, ac a'i llais nefolaidd denai lawer i'w dilyn. Ei gwysg oedd ddifalch hollol a'i hymddygiad yn fonedd iawn; ond yn fuan tynnodd sylw gweision yr awdurdodau goruchel, y rhai a dybiasant, a'r forwynig hon, y gallent ond newid ei dillad a gosod yn ei genau rhyw lafar dieithr, wneud elw iddynt eu hunain; a hyn a ddaeth i mewn a Phabyddiaeth i'r byd; a hyn barodd y tywallt gwaed, a'r lladd a llosgci dan enw crefydd, a'r erledigaethau digyffelyb dan Esgob Bonner a'r Frenhines Mari—ac erledigaethau o'r fath mewn gwledydd ac oesoedd eraill.

Paham yr âf ymlaen i chwanegu adroddiad at adroddiad o greulonderau yr amseroedd enbyd?

Y mae hanes y byd a'r eglwys yn llawn o honynt. Yr ydwyf yn teimlo yn flinderns wrth feddwl am danynt.

Ac yr wyf yn ofni fod y darllenydd yntau wedi blino eisioes ar "yr amseroedd enbyd."

TAU GIMEL.

Y MUD-GYFREITHIAU.

(Laws of Motion.)

1. Pob gwrthrych difywyd, pa un ai ar wyneb y ddaiar ai ynddi, a saif yn llonydd yn yr un man hyd nes y symudir ef gan ryw rym oddiallan iddo, ac annibynol arno. Nid oes dim ond sydd berchen bywyd a all symud o hono ei hun o un man i'r llall.

2. Un waith y gosodir gwrthrych mewn symudiad, efe a symudai yn dragywydd tua'r un cyfeiryd, oni bai fod rhyw wrthrych mwy ei faintioli yn dylanwadu arno, ac yn lladd neu yn diddymu ei *duedd* symudawl. Er engraifft, carreg a deflir a llaw, neu bwlet a saethir o dryll, a elai yn mlaen yn yr un cyfeiryd yn dragywydd, a chyda'r un *force* neu bwer ac a roddwyd iddynt ar y foment y dechreuasant eu gyrfa, oni bai effaith dylanwad rhyw wrthrych arall.

3. Mae tuedd neu *reddf* mewn pob sylwedd i dynu bob sylwedd arall oddiallan iddo atto ei hun. Gelwir y duedd hon yn Saesneg *attraction*—gair ammhriodol, oblegid dynoda effaith y duedd yn hytrach na'r duedd ei hun; ac o eisiau gair mwy addas galwaf y duedd hon yn Gymraeg *sugn-dyniad*. Beth yw y duedd hon, nid oes neb a wyr ond y *Creawdwr Mawr*. Fel gwres neu *electricity* nid ydyw yn adnabyddus i ni ond yn ei heffeithiau. Er dim a wyddom i'r gwrthwyneb mae ei bodoliaeth mor angenrheidiol a sylwedd ei hun, oblegid nid oes un math o sylwedd yn amddifad o honi. Mae'r haul, y planedau, a'r lleuad yn berchen arni fel y ddaiar. Sygn-dyniad o ran ei rym sydd yn wastad yn ol maintioli a chynhwysiad y y sylwedd

4. Gan fod y ddaiar yn gorph ag sydd yn cynnwys mwy o sylwedd nag un gwrthrych ar ei hwyneb, mae ei sugn-dyniad hefyd yn fwy na sugn-dyniad un rhyw wrthrych sydd yn gorphwys arni. Am hynny mae pob gwrthrych, ond y lleuad, yn *gorfod* dyfod atti a gorphwys ar ei hwyneb. I'r gyfraith hon mae pob peth byw a difywyd yn gorfod ufuddau. Hebddi ni allai y greadigaeth ddim bod; neu pe gwelai Awdwr natur yn gymmwys i'w diddymu, elai y ddaiar a'i holl gyflawnder yn llwch ar wasgar trwy'r gwagle diderfyn.

Mae pob gwrthrych yn ol ei faint, a'i gynhwysiad o ran sylwedd, yn tynu y ddaiar atto ei hun, yr un mor nerthol ac ydyw y ddaiar yn ei dynu yntau: ond gan fod pob gwrthrych ar wyneb y ddaiar yn anfesuradwy llai na hi, nid ydyw ei dyniad yn effeithio *dim* arni. Pe gosodid dau fwl o bren, un yn bedwar cymaint ar llall, i nofiaw ar ddwfr llonydd, mewn twba, dynesent at eu gilydd, yr un lleiaf bedair gwaith yn gyflymach na'r un mwyaf, oni bai gwrthwynebiad y dwfr. Os sylwodd y darllenydd erioed ar ddernyn o bren mewn

pwll o ddwfr llonydd, gallai ganfod yn glynu oddiamgylch iddo friwyd a man welltach: yr achos ei bod yn glynu wrth ochrau y pren yw, fod ei sugn-dyniad ef yw gryfach na'r eiddynt hwy.

5. Mae mynediad pob gwrthrych o ran *buandra* ei symudiad, yn cyfatteb i'r grym neu'r *force* fyddo wedi ei gyffro. Mynediad bwlet o ddryll sydd yn fwy buan na phe teflid hi a llaw. Dealler mai dau beth gwahanol yw cyflymdra gwrthrych yn ei symudiad, a grym neu *force* gwrthrych yn ei fynediad. Gellir gwneyd bwlet bum pwys ar hugain i symud mor gyflym ac un hanner can pwys; ond bydd grym un ddau cymaint a grym y lall. Y mae pob gwrthrych hefyd yn symud yn yr un cyfeiryd ac y byddo y pwer a'i cyffrodd.

6. Pan fyddo dau wrthrych yn taro yn erbyn eu gilydd, megys bwlet yn erbyn mur, neu graig, neu garreg, gelwir ergyd y ddau yn weithrediad a gwrthweithrediad. Y mae gweithrediad a gwrthweithrediad yn groes i'w gilydd.

7 Pan fyddo dau bwer o wahanol gyfeiryd yn gweithredu ar yr nn gwrthrych yn y fath fodd fel ag y myn un ei wthio yn ei ffordd ef a'r llall yn ei ffordd yntau, nid â y gwrthrych yn ffordd un na'r llall; ond â mewn llinell uniawn rhwng y ddau gyfeiryd. Er engraifft, meddylier fod dau ddyn yn rhwyfo bâd tua'r gorllewin, a gwynt yn chwythu o'r gogledd o ran pwer yn gyfartal i bwer y ddau rwyfwr; mae yn amlwg nad elai y bâd ddim tua'r dehau gyda'r gwynt, na thua'r gorllewin gyda grym y dynion; ond mewn cyfeiryd rhwng y ddau, pum gradd a deugain oddiwrth bob un, sef tua'r dehau orllewinol Meddylier etto fod y bâd yn cael ei glymu wrth long a rhaff gan llath oddiwrth y llong, sef hyd y rhaff, yn amcanu ei rwyfo mewn cyfeiryd croes iddi (*at right angle with the rope*); llwybr y bad fyddai cylch round oddiamgylch y llong. Pe byddai y pwer sydd yn y llong yn dal y bad yn gryfach na phwer y ddau ddyn fyddai yn rhwyfo, ac yn cynnyddu yn raddol, a'i fod yn tynnu y bad tuag atto gyda chyflymdra cynnyddawl yn ol cynnydd y pwer, ni ffurfiai llwybr y bad weithian gylch round fel o'r blaen, ond math o gwrbyn a elwir *parabola*. Carreg a deflir a llaw, neu bwlet a saethir o dryll, neu dwfr a wthir o chwistrell, a ffurfiant yn eu taith trwy'r awyr yr un math o gwrbyn; oblegid y mae y ddau bwer yn gweithredu yn groes i'w gilydd, sef pwer y llaw neu y dryll nen y chwistrell, yr hwn bwer sydd yn gyfartal (*constant*), a phwer sugn-dyniad y ddaiar, yr hwn sydd *yn cynnyddu* yn raddol fel y byddo y gwrthrych a deflir yn dynesu atti.

D. L. Evans

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

CYFARFOD CWARTEROL

Cynnaliwyd Cyfarfod Cwarterol Gweinidogion Undodaidd y Deheubarth dydd Mercher a dydd Iau, yr ail a'r 3ydd o Ionawr, yn yr Hên Dŷ-cwrdd, Aberdâr.

Prydnawn dydd Mercher, pregethodd Mr. Thomas Thomas, Pantydefaid, oddiwrth Matt. xvii. 5., a Mr. J. E. Jones, Penybont, oddiwrth Rhuf. viii 17.

Boreu dydd Iau, pregethodd Mr. P. Livingstone, (gweinidog Twyn yr Odyn, Merthyr,) yn Saesneg, oddiwrth Matt. xxiv. 35. a Mr. Lloyd o Gaerfyddin, yn ôl appwyntiad y Cwrdd Cwarterol blaenorol, a bregethodd yn Gymraeg oddiwrth 1 Ioan iv. 10.

Yn y gynnadledd a ganlynodd, wedi dewis Mr. Jones, gweinidog y lle, yn gadeirwr, llefarwyd ar "y *pwnge*," sef, *Crefydd*, gan Mr. James, Gellionnen, Mr. J. E. Jones, Penybont, a Mr. O. Evans, Cefn. Diweddwyd y cyfarfod trwy weddi a chanu mawl. Yn y diwedydd am 6. pregethodd Mr. James, Gellionnen oddiwrth 1 Cor. viii. 6.—un o'r pregethau mwyaf treiddiol, cynnwysfawr a phwrpasol a glywsom erioed ar y pwnge, hyd yn oed oddiwrth Mr. J.

Yr oedd y gynulleidfa, ar bob un o'r cyfarfodydd, yn fwy lluosog nag yr y'm yn cofio ei weled o'r blaen yn y lle. Ymddangosai y gwrandawyr yn astud a difrifol dros ben. Ac y mae lle i feddwl fod y cyfarfod wedi bod o ddiddanwch ac adeiladaeth i laweroedd.

I.

Y SOUTH WALES RAILWAY

Cynnaliwyd cyfarfod *Shareholders* y *Railway* yma yn Llundain, yn Mis Rhagfyr diweddaf, a C. R. M Talbot, Ysw. A.S. yn gadeirwr. Ymddengys nad ydyw y Cwmp'ni yma yn bwriadu gwneuthur y *railway* i gyrhaedd ymhellach i Gymru nag Abertawe. Meddyliasant ar y cyntaf ei chwblhau i Filford yn Sir Benfro; ond deallant yn awr, mae'n debyg, mai colled mawr iddynt fydd myned ymhellach na thref Abertawe; ac felly ceisiant ymryddhau oddiwrth eu haddewid i fyned ymhellach. Diameu y bydd hyn yn siomedigaeth fawr i lawer oedd yn disgwyl gweled ffordd haiarn, ac agerdd-beiriannau yn tramwyo trwy eu gwlad.

Y SENEDD

Bydd y Senedd wedi ymgyfarfod erbyn y

byddo y rhifyn hwn yn nwylaw ein darllenwyr.

Y mae llawer o ddaroganu, a chryn ddisgwyl, pa fesurau newydd, os dim, fydd i gael eu cynnyg yn araeth y Frenhines. Ond tebyg mai yn ol yr hen arfer y bydd: hynny yw, na roddir unrhyw addewidion pendant. Y mae y cyfarfodydd a gynnaliwyd yn ddiweddar yn Llundain ac yn y taleithiau gan bleidwyr a gwrthwynebwyr rhydd-fasnach, yn rhoddi arwyddion pur amlwg fod y ddwy blaid yn ymbarotoi i'r frwydr: ac os yw'r ysbryd a ddangoswyd i'w gymeryd fel *sample*, ofnwn y bydd yr eisteddfod sydd ar ddechreu yn un ystormus; ac y ceir gweled pleidgarwch a hunan-elw yn boddi llais pwyll a doethineb. Dywedir fod gwrthwynebwyr rhydd-fasnach yn anobeithio cael y cyfnewidiad a ddymunant oddiwrth y Seneddwyr presennol, y rhai sy'n debyg o gael cadw eu llefydd dros rai blynyddau etto. A chyn y byddo etholiad newydd i gymeryd lle, nid oes neb a wyr pa gyfnewidiadau fydd wedi digwydd yn llywodraethau y cyfandir. Da yw bob amser fod ein "ty wedi ei osod mewn trefn." Diau mai peth o'r pwys blaenaf yw llewndid o fara ac anghenrheidiau ereill, ac am brisoedd mor isel fel y gallo y bobl yn gyffredin gael eu digoni. Y mae cyfiawnder a phob egwyddor dda yn gofyn trefnu, mor belled ag y mae yn bossibl, tuag at ddwyn hyn oddiamgylch. Ond i'r diben hyn, ymddengys ei fod yn gwbl angenrheidiol i gadw amaethwyr ein gwlad ein hunain ar eu traed. Ac y mae yr un cyfiawnder a thegwch yn gofyn fod i'r dosparth lluosog sy'n ymddibynu ar amaethyddiaeth hefyd gael lle i fyw, ac na fyddo eu meddiannau a ffrwyth eu diwydrwydd i fyned i'r dim, a hwythau a'u teuluoedd i syrthio i dlodi, nid o'u hachos eu hunain. Y mae lle i ofni, cyn y gostyngir y rhenti yn gyffredinol y bydd llawer o'r ffermwyr wedi ddioddef yn dost, a rhan fawr o honynt wedi eu distrywio yn eu hamgylchiadau. Cawn weled maes o law pa beth a gynnygir, Ofer fydd disgwyl i'r llifeiriant droi yn ôl, nag ychwaith i aros lle y mae yr awr hon. Ymlaen yr â rhydd fasnach wrth bob tebygolrwydd. Ac ar ol iddynt weled nas gellir ei rhwystro, ceir clywed, ond odid, llawer o'r rhai sy'n bresennol yn ei herbyn, yn gwacddu, ymlaen â hi, "Gan fod y rhenti wedi eu gostwng, gostynger hefyd pob taloedd i swyddogion a *phensioners* mewn gwlad ac eglwys, o'r Frenhines ar yr orsedd hyd at yr hen filwr toredig sy'n byw ar ei 15 ceiniog y dydd."

FRAINGC.

Ymddengys fod Ffraingc ar ôl y cyfan, yn mhell o fod mewn cyflwr sefydlog. Nid yw y Llywydd wedi gwella ei gymeriad tuwy gymeryd dan ei nodded newyddiadur dan yr enw "Napoleon," yn yr hwn yr amddiffynid golygiadau a gobeithion y Llywydd ac y dangosid chwenychiad am gael y llywodraeth yn ymerodrawl, neu o leiaf yn barhaus yn nheulu Bonaparte.

Daeth y newydd fod nifer o derfysgwyr a ryddhawyd o garchar gan y Llywydd, wedi gwneud cyngrair i lofruddio y gwr a wnaeth drugaredd â hwynt—fod un o honynt wedi cyffesu ddarfod i'r cyd-fradwyr fwrw coelbren pa un o honynt oedd i gyflawni y weithred, ac mai arno ef y syrthiodd y goelbren,—ei fod ef, mewn canlyniad, wedi bod yn cynllwyn am fwyd y Llywydd, ond iddo fethu cael y cyfleusdra a ddisgwyliasai am dano—ac am nas cyflawnodd ef y weithred fod y lleill yn ei fygwth. Ond y mae newyddion diweddaraeh yn rhoddi ar ddeall nad oedd dim gwirionedd yn y peth. Pa fodd bynag y mae yn ddigon gwir fod gweinyddiaeth Louis Napoleon wedi cynnyg a'r mwyrhif yn yr Assembly wedi passio cyfraith i attal neb i fod yn ysgol-feistri yn Ffraingc oni bydd swyddogion y llywodraeth yn eu cymeradwyo. Dyellid mai ergyd oedd hwn at y gwerinwyr cochion a'r *Socialists*, er mwyn cadw y cyfryw allan o swyddi a sefyllfaoedd dylanwadol. Ond ymddengys er hyny fod y blaid yr ydys yn ei hofni, ar gyfodi eu penau unwaith etto. Mewn etholiad aelod i'r Assembly yn *department du Gard* yn y mis diweddaf dewiswyd M. Favand (Socialist) gyda miloedd o bleidleisiau yn fwy nag a roddwyd i'w gyd-ymgeiswyr. Y mae hyn wedi creu cryn anesmwythder rhag ofn y bydd i etholwyr eraill i ddilyn y siampl.

PRWSSIA

Wrth bob argoelion, cyn ymddangoso ein Rhifyn nesaf, bydd cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle yn Prwssia naill ai er gwell neu er gwaeth. Y mae y diwygwyr er ys talm wedi colli pob ymddiried yn eu Brenin.

Yn well na'i dad, yr hwn a addawodd *gonstitution* i'w deiliaid pan yn galw arnynt i gyfodi fel un gwr i ddodi Napoleon i lawr; ond wedi iddynt wneud hyny, a llwyddo, ni chofiodd ei addewid—y mae y Brenin presennol Frederic William wedi ymgynnyg fwy nag unwaith i fod yn flaenor ar ddiwygwyr Germany. Yr oedd efe gyda'r blaenaf yn sefydlu y Senedd Undebol yn *Frankfort*, ac efe yn benaf a fu yn foddion i'w dwyn i'r dim.

Wedi galw ynghyd gynrychiolwyr o wahanol barthau ei deyrnas, yn ol ei drefn ei hun, i gyttuno ynghylch *constitution* i'r wlad; pan gafodd fod y rhai'n yn anghyttuno a'i olygiadau a'i ddisgwyliadau ef, pa beth a wnaeth ond eu gollwng ymaith, neu eu gwasgaru trwy rym arfau, ac yna cyhoeddi *constitution* newydd o'i eiddo ei hun, a gwysio cynrychiolwyr newydd. Y mae y gynrychiolaeth

bresennol, er fod y diwygwyr yn bwrpasol wedi cadw i maes o honi, yn debyg iawn o ddyfod i'r un diben a'r rhai blaenorol. Pa beth fydd y canlyniad, anmhosibl rhag-ddywedyd. Tebyg fod y gallu Brenhinol yn ddigon i ddarostwng bob terfysg am ryw amser.

RWSSIA A THWRCI.

Nid oes un sicrwydd fod Rwssia yn ymbarotoi i ymosod ar Twrci yn y gwanwyn, ac i gymeryd meddiant o Constantinopl a'r Bosphorus, a'r taleithiau ar y Danube; na chwaith fod yr anghydfod rhwng y ddwy deyrnas, yn achos y ffoedigion Hungaraidd, wedi ei wneud i fynu. Pa fodd bynag y mae llynges Lloegr hyd yn hyn yn cadw ei sefyllfa yn y *Dardanelles*. A pheth arall—y mae Ymerawdwr Rwssia wedi anfon i Loegr i fenthyca *pum miliwn a haner;* mewn ymddangosiad er mwyn cwblhâu y *railway* rhwng Petersburg a Moscow, yr hon sydd eisioes ymron yn barod; ond mewn gwirionedd i dalu y draul yr aeth iddo yn ei ymosodiad creulon ac anghyfiawn ar yr Hungariaid. Onid yw y rhai sy'n rhoddi benthyg eu harian i Nicholas, yn euog o gyfiawnhâu ei greulonderau?

Hysbysir fod Madame Kossuth wedi diangc o Awstria, ac wedi cyrhaedd Belgrade ar ei fford i fyned at ei gwr yn Shumla. Dywedir hefyd fod Kossuth a'i wyr ar gael eu symmud o Shumla i oror Asia er mwyn ei ddiogelu rhag amcanion rhai dynion sydd wedi eu hurio gan yr Awstriaid i gynllwyn am ei fywyd.

MARWOLAETH

Ionawr 19. Bu farw, yn 15 mlwydd oed, Dafydd, ail fab Mr. Dafydd Daniel, Caeglas Llanbedr, Ceredigion. Anhawdd neillduol oedd cael ei ail a chymmeryd ei ddiniweidrwydd, ei ymddygiad moesol a'i dymmher mwynedd a charedig mewn ystyriaeth. Pe buasai ei iechyd yn caniattau, nid oes y dadl lleiaf na fyddai yn un o enwogion y wlad mewn dysgeidiaeth cyffredinol, gan fod ei gynneddfau naturiol yn eu hymddangosiad effeithiol yn ei brofi eisioes yn meddanu gwybodaeth ym mhell tu hwnt i'w oedran. Da fyddai gweled ei gyfoedion yn ei efelychu mewn ymddygiad; yna gwelid agwedd arall ar iengctyd yr oes, a'r cablu a'r tyngu a'r rhegu, yr ymryson a'r ymladdfeydd yn cael eu gyrru o'r wlad, ac yspryd gwaraidd Dafydd bach yn cael yr effaith hynny arnynt er gwneuthur i heddwch, tangnefedd a charedigrwydd lwyr losgi haint gwenwynig pob anfoes ymddygiad.

TAU GIMEL.

BARDDONIAETH.

MOLAWD MON.

Nos da i'r ynys dywell
Ni wn oes un ynys well;
Ynys yw Môn o enaint,
Ynys yw hi lawn o saint;
Ynys Golcos, wrth Rosyr,
Ynys Roeg yn sirio gwyr:
Ynys Fôn, ynys fwy iach,
Felly ynys Afallach;
Os hardd ynys y Werddon,
Och ym ond harddach yw Môn.
Tri thir a nodir un wedd,
Tair rhag ynys tir Gwynedd,—
Ynys Fôn, ynys Fanaw,
Ynys Wair dros Ddefnsair draw;
Tir Môn, gwell no'r tair maenawr,
Tir yw o faint Troya fawr.
Teyrnas yn gwmpas ei gwaith,
Traethen lle tiria wythiaith.
Yn Môn, lle bu feibion Llyr,
Y mae eilwaith y milwyr;
Plasau saint, palisau sydd,
Preladiaid pur i wledydd;
Gweilch bob deg, meirch ac egin,
Gwragedd da, gwyrda, a gwin;
Meibion yn Môn yn rhoi medd,
Morwynion yn mro Wynedd:
Am Fôn yr ymofynaf,
Mwnai a gwin yn Môn gaf;
Graddau, seigiau gwresogion,
Gwleddau mawr Arglwyddi Môn;
Gwin graps gawn i a grayns,
Gwin ac aur, gwên ac orayns;
Resin, cwrens, a fenswn,
Cost, nid er bost, adar y bwn:
Groesaw i a ddaw yn ddau,
Gwyr dieithr gwawr y deau;
Gwahoddion gwlad Fôn a fydd,
Gwedi gŵyl gyda'u gilydd:
Mae yn Môn, yn mhob maenawr,
Islaw i'r fort seler fawr;
Gorddu yw brig y Werddon,
Gan fwg ceginau o Fôn;
Rhai yn dal yr hen dylwyth,
Aberffraw wen y bu'r ffrwyth;
Cadwaladr fel coed eilon,
Yntau fu mewn tai o Fôn,
Lle yr oedd Essyllt urddaswawr,
Draw hi a'i mab, Rodri mawr;
Drwy Loegr bu dair welygordd,
O saint Cymru'n neutu'r *Nordd:*

Ac yn Môn, ac uwch Conwy,
O ryw y tair fe roed dwy.
Cunedda fab gwrda gwyn,
Caw eilwaith yn Nhwrcelyn:
O Fon y daeth prif fonedd,
Yn Môn y mae gwin a medd:
Mal Ebron ei hafonydd,
Môn, mam Gymru, fclly fydd:
Goreu man, gwewyr meinion.
Goreu maenawr gwlad fawr Fôn:
Wrth ddisgwyl mor anwyl oedd,
Ar nasiwn yr ynysoedd,
Einioes fyth i ynys Fôn,
A dwy einioes i'w dynion.

Lewis Glyn Cothi, 1440.

Gyfeillon, Cwm Rhondda, Pontypridd, Ionawr 21, 1850.

Mr. Ymofynydd,—Pan ddarllenais yn eich Ymofynydd y mis hwn y Salm, neu Gân yr yr Angylion o gyfansoddiad Iolo Morganwg, yn fy nhy i pan oeddwn yn Rumney,—gwelais ar unwaith bod rhyw law wedi ei *chaboli* ar ol yr hen fardd—ond yn lle ei gwella, y mae wedi ei hanferthu, ac y mae yn rhyfedd gennyf feddwl na fuasai bardd o enwogrwydd Brychan, wedi craffu ar y beiau cywilyddus sydd ynddi.—y mae yn ddigon amlwg nad yw *plith* a *dilyth*, yn cyfodli nag yn iawn acceniad.

Dyma fal y daeth y cyfansoddiad o law'r hen Fardd:—

"*Cân yr Angylion.*—Luc ii. 14."

"Drwy nefol uchelderau'r gwawl
Aed cân i'r Unig Dduw;
A Chôr y Nef ymuned mawl
Holl deulu dynol ryw;
Fal iaith un enaid, ym mhob gwlâd
Boed llafar clod i'r Nefol Dad.

Hedd Duw a'i holl iawnderau ef,
Fo'n disgyn, fal y gwlith,
Ar ddynol ryw, a Theyrnas Nef
A welir yn ein plith;
Ewyllys da, 'n gweithredu'n glau,
Ewyllys Duw byth i barhau.

Gwel Salm clxxxiv. tudal 191. Cyfrol II. Salmau yr Eglwys yn yr Anialwch.

Ydwyf, &c.,
James Davies.

ENGLYNION I'R GAUAF.

Anian, oedd ddoe yn hoenwych,—a welaf
Yn wael-iawn dan fawrnych;
Noeth a thlawd, rhawd yn y rhych,
Ei mirain wisgoedd mawrwych.

O'r bron ei holl ogoniant—a wywodd;
Deiliodd ei holl dyfiant;
Y per lysiau, gorau gant,
O flaen yr hin ddiflanant.

Miloedd o goedydd moelion,—y dolydd,
Gwyrdd deiliog yn llymion;
Gwlaw, rhew, eira tew ar y tòn,
A chanoedd o achwynion.

Oer y' mhob man, gwynt yn chwibanu,—Och!
Mae'r iachaf yn crynu;
Hoff anian, mor fwynlau fu
Ei thegwch,—sy'n gwaethygu.

Evan Nicholas,
Pencoed, Llangrallo. *(Bardd Llwyd.)*

AT EIN GOHEBWYR.

Derbyniadau y Mis.—J. Rhys; O. Evans; J. Jones; D. L. Evans; Tau Gimel; J. D., Cellan; R; B. Jones, Llundain; James Davies ac E. Nicholas.

J. D.—Nis gallwn gyhoeddi "Ychydig efrydiaeth ar ddull Pregeth," nac "Undodwr Cyson."

Rhoddir "Sylwadau (Mr. Jones, Aberdâr) ar lyth D. L. Evans ar y gair *colasis*," a "Bywgraffiad Syr I. Newton," yn y nesaf; a "Cofiant Carnhuanawc," mor gynted ag y byddo amgylchiadau yn caniatau.

Q.—Da genym hysbysu fod gan yr Ymofynydd fwy o gyfeillion nag yr oeddem ni yn tybied. Y mae yr hysbysrwydd a roddir i ni gan ein Dosparthwyr ac eraill, yn ein calonogi i fyned ymlaen a'r gwaith.

Penybont: Argraffwyd gan W. Winstone, yn ei Argraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Chwef. 1850.

priodoledig i Ddaw gan Saint ac Angelion,—a'r addoliant maent yn dalu yn cael eu gosod allan ganddo. Gwel 1 Tim. i. 17; Dat. iv. 9, 10; vii. 12. &c. Mae un Berniad yn herio neb i ddwyn yn mlaen un ennghraifft o'r Testament Newydd, lle mae yn rhaid deall yr ymadrodd gyda rhyw gyfyngiad. Ac yn wir mae heb y cysgod lleiaf o reswm, i argymeryd fod y geiriau hyn yn meddwl cyfnod terfynol pan yn cael eu cymhwyso at gosb ddyfodol, ac etto yn analluog i ddwyn yn mlaen un testyn lle y mae yr ymadrodd yn meddu y fath arwyddocad.

Mae Mr. Jones yn barnu mai "nid digofaint Duw fydd yn cynal y tan; onide rhaid y bydd Duw yn dragywyddol ddamnedig, oblegid mae digofaint yn ddamnedigaeth yn mhob mynwes a'i coleddo." Wrth hyn yr wyf yn deall fod ychydig o wahaniaeth rhyngom ein dau o berthynas i'r golygiadau a feddwn ar ddigofaint Duw. Digon genyf yw dywedyd yn awr, nad wyf yn credu fod nwyd o ddigofaint yn y Goruchel; ac yn berwi mewn dialedd er mwyn iddo roddi barn ar bechaduriaid cyndyn. A ydyw yr olwg yn anarferol, gweled barnwr daearol, gyda dagrau yn ei lygaid, yn rhoddi dedfryd condemniad uwch ben yr euog; ac os yw y meddwl dynol yn hollol rydd rhag llid neu fel dywed Mr. Jones *bang drwg*. pa ham y priodolwn y cyfryw dymherau drygionus i'r Duwdod?

Mae ein hawdwr yn mynu mai gwae i Grist ac nid i Judas oedd i'r olaf gael ei eni—yr hyn ni oddef cystraweniad y geiriau; a gofynaf am ba beth ynte y cafodd Judas fyned i uffern; canys dyn heb fod yn *lan*, Ioan xiii. 11. ac un wedi ei *golli oddiwrth Crist*, Ioan xvii. 11, 12. nis gall yn ddiau fod yn y nefoedd.

Yr wyf yn ystyried fod y Cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glan yn estyn prawf penderfynol dros barhad diddiwedd y poenau, Gweler fy llythyr yn yr Ymofynydd am Hydref diweddaf. Mae yn hyfrydwch fod Mr. Jones heb ddantio hwnw.

Yr wyf yn deall fy mod wedi blino eich amynedd Mr. Gol. gyda erfyn arnoch roddi hwn yn eich cyhoeddiad gorphwysaf gan ystyried mai.

> "Mewn enyd fer, mewn mynyd awr
> Yn ceir ni byth yn uffern fawr,
> Neu'n canu uwch y rhod.

Am hyny dymunaf ar i chwi, Mr. Jones, eich darllenwyr a'm hunan gael deall da yn mhob peth.

> Yn gyflym iawn myn'd 'rym i'r bedd:
> O am adnabod Duw a'i hedd!
> Cyn treulio'n heinioes frau.

Yr eiddoch yn ostyngedig,
Llanbedr-pont-Stephen. DAVID EVANS.

LLYTHYR AT Y GOLYGYDD.

MR. GOLYGYDD,—Dichon eich bod wedi derbyn llythyron ar ddiwedd y flwyddyn oddiwrth lawer o ddarllenwyr eich cyhoeddiad, yn cydnabod gyda diolchgarwch y llês a'r pleser ddeilliodd iddynt oddiwrth ffrwyth eich llafur chwi a'ch gohebwyr o fewn y flwyddyn ddiweddaf. Ymhlith y cyfryw hyderaf na ystyriwch yn ddiystrwch ar eich *character* fel Golygydd fy mod innau, un o ddarllenwyr cyson eich misolyn o'i ddechreuad, yn dychwelyd i chwi a'ch gohebwyr, fy niolchgarwch gwresocaf am eich ymdrech diflin hyd yn bresenol a'ch bwriad i barhau i gario ymlaen y gwaith dros ryw ysbaid o amser etto.

Ar yr olwg gyntaf gellid meddwl mai swydd yw golygiaeth yr *Ymofynydd* heb unrhyw anhawsdra neilldiol i'w llanw, o herwydd fod Gweinidogion yr Undodiaid a'u cymmeryd fel dosparth yn cael eu hystyried yn fwy dysgedig, a galluog i osod eu meddyliau yn hysbys i'r cyhoedd trwy'r Argraffwasg nac enwadau eraill yn yr oes bresenol, ac fod y maes yn helaethach ganddynt, yn ol eu tyb eu hunain, i gasglu trysorau teilwng o sylw y doeth a'r pwyllog, trwy fod rhai o honynt yn barnu fod egwyddorion crefydd yn y *natur ddynol;* eraill mai yn *y Beibl* y maent; os nad oes eraill etto yn credu eu bod yn *mhob un o'r ddau,* a rhwng y meusydd eäng hynny, gellid meddwl nad oes gwaith gan y Golygydd ond yn unig *penderfynu* neu ddewis yr ysgrifau mwyaf addas.—Meddyliaf ac ofnaf hefyd fod Mr. Ymofynydd yn barod i'm hatteb yn nacäol, a dywedyd ei fod yn achlysurol yn treulio llawer noswaith mewn anhunedd, er gwneuthur i fynu yr hyn fawr ddisgwyliodd oddiwrth ei ohebwyr o fewn i'r mis, a derbyn fe allai oddiwrth rai o honynt yn lle gohebiaethau, *Notice* os na ddeuai y misolyn allan o'r Wasg yn *amserol*; na dderbynid mo hono, heb ystyried mai annerbyniol fuasai tudalenau diargraffedig yn yr oes olau hon.

Dichon fod Mr. Golygydd fel llawer, pan ddarfyddo y *gwenith goreu,* yn gorfod gwneud defnydd *o'r ail,* ac yn lle cael diolchgarwch am ei barodrwydd i osod ar y bwrdd y disgleidiau *goreu* oedd ganddo ar y *pryd,* yn absenoldeb eu *gwell,* yn cael ei gornio y tro nesaf, neu y gorfydd iddo lanw congl o'r Ymofynydd naill ai oddifewn neu oddiallan os nid weithiau pob un o'r ddau ag *Apologies* neu ynte i ymladd ei ffordd fel y gallo o hynny allan heb gynnorthwy.

Mae Mr. Golygydd hefyd yn agored i gael ei feio am fyrdra newyddion tramor a chartrefol er difyru y cymmydog sydd wedi rhoi

benthyg ei feibl ac heb gofio i bwy, a cholli ei flâs at bynciau crefyddol—gwir yw bu yr Ymofynydd yn lled onest ar y cyntaf am newyddion dan yr esgus neu yr argyhoeddiad fe allai, mai trysorfa yr oedd i fod o bethau crefyddol ac athrawiaethol, er llês yr oes a ddaw, os darllenant ei gynnwysiad.

Teilwng o ddiolchgarweh neilldiol yw Mr. O. Evans ac eraill, am eu darlithiau addysgiadol parhaus. Gobeithir y gwnant barhau i gadw mewn cof fod o leiaf tua mil o ddynion yn darllain eu gwaith bob mis, ac nas gall yn ol nattur pethau i'w llafur fod yn ofer. Er fod eu darlithiau yn unol yn ol fy marn i â dysgeidiaeth y Beibl ar y cyfan, er hynny ymddengys fod cynnygiadau yn achlysurol yn cael eu gwneuthur i ddiseilio y cyfryw. Sicr, ble bynnag mae cyfeiliornad, goreu p'un gyntaf i'w symmud; ond doeth fyddai gochelyd rhoddi tramgwydd hyd y gellir trwy eiriau serth a iaith drwsgl, er peidio rhoddi achos i'r cyhoedd i ddywedyd na saif y Deyrnas a ymranna yn erbyn ei hun ddim yn hir. Hir fywyd i chwi Mr. Golygydd a gohebwyr deallus, a llwyddiant i chwi gario yr Ymofynydd ym mlaen yn hwylus—gobeithio y cewch gynnorthwy digonol ymhob ystyr, ac addewaf y cewch gynnyg yn fisol ar rywbeth oddiwrth.

Bene Volente.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Y FLWYDDYN 1849.

Yr oeddem yn bwriadu rhoddi yma adolygiad byr o brif ddigwyddiadau y flwyddyn sydd yn awr ar fyned heibio. Ond teimlwn ei fod yn amhossibl i ni i grynöi yr haner o fewn y terfynau a ganiateir i ni ar y pryd hwn. Ac yn wir, hyd yn oed pe bai lle ac amser yn caniatâu, y mae yn fwy nâ thebyg y teimem yn bur analluog i wneud cyfiawnder â'r testunau pwysig. Buasai crynodeb byr o ddigwyddiadau y rhyfeloedd a'r gwrthryfeloedd sydd wedi cymeryd lle ar y cyfandir yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, yn digon i lanw Rhifyn o'r Ymofynydd. Gellid gwneud hyny heb gyffwrdd a'r gwir achosion o honynt, y rhai, fel tarddiad ffynonau a dorant allan yn yr anialwch, ydynt etto i fesur mawr yn guddiedig. Nid oes le i ddisgwyl am lwyddiant gwlad, na thawelwch parhâus, oni bydd gwybodaeth a phwyll yn y bobl ac yn y llywodraethwyr---trefniadau a chyfreithiau têg a chydnabod breiniau dyn. Er fod ymerawdwyr a brenhinoedd wedi llwyddo y tro diweddaf i ddarostwng gwrthryfelwyr; nid ydyw yn canlyn oddiwrth hyny y llwyddant y tro nesaf. Y mae y dialedd a ddangosodd y Brenhinoedd ar ôl i'r cythrwfl fyned heibio, wedi dysgu gwers ofnadwy i'r werin. Y mae achos ganddynt i ofni na ddangosa'r werin y fath dynerwch iddynt ar chwyldröadau dyfodol, y rhai sydd yn sicr o gymeryd lle (ni wyddys pa mor fuan) oddieithr i lywodraethwyr fod yn ddoeth mewn pryd, a cheisio symud yr achosion o honynt.

Gwanwyn diweddaf yr oedd achos Hungary yn blodeuo yn obeithiol; yn awr y mae yn isel yn y llwch. Trwy gyngrair yr Ymerawdwyr ynghyd a bradwriaeth Georgey (fel mae lle i dybied) syrthiodd i law'r gelyn. Y mae ei goreuon naill ai wedi eu gosod i farwolaeth, neu ynte wedi gorfod ffoi am eu bywyd. Ac y mae yr ymdrechiadau a wnaed er ëangu rhyddid gwladol yn Sicily, yn Baden a llefydd eraill wedi bod yr un mor aflwyddiannus. Ar y cyfan trôdd digwyddiadau 1849. yn erbyn diwygiad.

Trwy drugaredd arbedwyd ein gwlad ni rhag gwasgfeuon a dychrynfeydd rhyfel. Ond y mae pla dinystriol wedi bod yn ein plith, y Cholera—yr hwn sydd wedi dysgubo miloêdd ar filoedd o'r trigolion.

Mae y plâ etto wedi ei symud. Llawer iawn o'n cyfeillion o symudwyd ganddo i dŷ eu hir cartref. Yr ydym ni yn fyw i dalu diolch am gael ein harbed. Cawsom gynhauaf ffrwythlawn anghyffredin. Y mae digon o ymborth da o bob mâth, a hwnnw yn rhâd dros ben; etto mae llaweroedd o'r bobl weithgar yn methu cael digonedd o hono. Nid ydynt yn gwadu mai gwir a ddyed y ffermwyr---ei bod yn llawer gwell amser ar y gweithiwr pan yr oedd pris-

oedd ymborth ac angenrheidiau eraill yn uwch nag y maent yn bresenol. Y mae masnach yn para yn llesg, ac arian yn brin yn y wlâd, pan y gwyddys fod miliynau o aur yn fwy yn nghelloedd y *Bank of England* nag sydd wedi bod er ys blynyddau lawer. Gobeithiwn fod amseroedd gwell yn agosâu.

MARWOLAETH Y FRENHINES ADELAIDE.

Ar y 2ed o Rhagfyr, ar ôl hir gystudd, bu farw y Frenhines ADELAIDE, gweddw y Brenin William IV. Merch hynaf ydoedd i Duc Saxe Meiningen, un o dywysogion bychain Germany. Ganed hi Awst y 13eg. 1792. Ymbriodod â'r diweddar Frenin William (Duc Clarence. y pryd hwnw) Goryh. 11eg. 1818. Yr unig blentyn a aned yn fyw iddynt a fu farw cyn ei bod y dri mis oed.

Mehefin 26, 1830, ar esgyniad ei phriod i'r orsedd, daeth i fod yn Frenhines Lloegr: coronwyd hi ymhen blwyddyn ar ôl hyny. Mehefin 20, 1837, bu y Brenin William farw; ond cyn hyny gosodasai y Senedd gan mil y flwyddyn tuag at gynnaliaeth ei Frenhines yn ei gweddwdod. Enillodd y Frenhines Adelaide air da iddi ei hun trwy ei buchedd dawel a phrydferth, a thrwy ei gweithredoedd elusengar ac haelionus. Claddwyd hi yn Windsor yn y beddrod brenhinol; ond ar ei dymuniad ei hun, gyda mor lleied o rwysg ymddangosiadol ag oedd gweddeidd-dra yn caniatau.

RHYDD-FASNACH.

Y mae y ddadl rhwng y rhydd-fasnachwyr a'u gwrthwynebwyr, fel pe wedi ei hadnewyddi yn ddiweddar. Mewn gwahanol gyfarfodydd yn y taleithiau mae y ddwy blaid wedi bod yn areithio ar y pyngciau mewn dadl, weithiau wyneb yn wyneb: yr hyn sy'n lled arwyddo y bydd i'r frwydr ddechreu o'r newydd yn y Senedd, yr eisteddfod nesaf, ac y gwneir ymdrechiadau taer i gael rhyw faint o amddiffyniad (protection) i'r ffermwr a pherchnogion tir.

AMERICA.

DR. PARKMAN.

Mae yn flin iawn gennym hysbysu i'n darllenwyr fod Dr. George Parkman, Gweinidog Undodaidd yn Boston, Unol Daleithau America, wedi dyfod, wrth bob tebygolrwydd, i ddiwedd truenus iawn. Gan obeithio y byddwn yn abl yn ein rhifyn nesaf i roddi hanes mwy cyflawn, ni wnawn ddim rhagor yn awr na dyweyd yn fyr fod Dr. John W. Webster, o Cambridge, Professor of Chemistry yn Havard College, yn ngharchar o dan y drwg-dybiaeth o lofruddio Dr. Parkman. Dywed yr hanes fod 427 dollars o ddyled ar Dr. W. i Dr. P., a'i fod wedi ceisio amrywiol ô weithiau ar Dr. W. i'w talu. Ar y 23ain. o fis Tachwedd diweddaf ymddengys yn ol yr hanes, i Dr. W. alw yn y boreu yn nhy Dr Parkman i ddyweyd wrtho am ddyfod am un o'r gloch y diwrnod hwnw i'r College i gael ei dalu. Ar yr amser penderfynedig aeth Dr. P. i'r College: gwelwyd ef yn myned i mewn, ond ni welwyd mo hono yn dyfod allan. Yn y prydnawn rhoddwyd gwybodaeth i'r *police*, a gosodwyd papurau printiedig ar hyd muriau y ddinas i gynnyg gwobrwy mawr i bwy bynnag a roddai gyfarwyddyd i gael gafael yn Dr. Parkman, ond yn ofer. Dywedai Dr. W. i Dr. Parkman alw yn y College am un o'r gloch ac iddo dderbyn ei arian; ond methodd ddangos y *receipt* am danynt. Ar y 25ain. danfonwyd y *police* i'r College i'w chwilio, yr hyn a wnawd, ond dwy ystafell ag oeddynt yng nghlo gan Dr. W. Chwiliwyd y College drachefn drannoeth, a thrydydd gwaith heb weled un arwydd fod llofruddiaeth wedi cymeryd lle. Erbyn hyn clywodd y Professors eraill fod y College dan ddrwg-dybiaeth a mynasant ei chwilio bob cilfach o hono. Y rhan gyntaf a chwiliwyd oedd seleri dan sylfaen yr adeilad; wedi llawer o drafferth i dyllu trwy'r mur i mewn i waelod ceu-dy tan weithfa (*laboratory*) Dr. W. cawsant afael yno mewn dernyn o asgwrn cefn dyn ynghyd a choes ddehau. Yn nesaf chwiliwyd ystafelloedd Dr. W. ag oeddynt dan glo: ynddynt ar ol manwl-chwilio daethpwyd ar draws ffwrn a chist-dê, y naill yr oedd dernyn o benglog dyn, o ên a dannedd dodi (*false teeth*) ynddi, ac ychydig o doddion aur ac arian, a byttynau. Gwyddid fod Dr. P. yn gwisgo dannedd dodi; ac am y toddion aur, meddylir mai gweddillion ei watch oeddynt. Yn y gist, y cafwyd trwnc dyn, sef y rhan rhwng y main gefn a'r gwddf, a choes aswy wedi eu gorchuddio a rhisgl cegyrn a rhyw fath o fŵnau. Ar hyd y llawr a'r grisiau yr oedd yn amlwg olion defnynau o waed a ymddangosent fel pe buasent wedi cael eu rhwbio allan ag *acid*. Daliwyd Dr. W. yn ddioed a gosodwyd ef yn ngharchar. Ar y cyntaf ymddangosai yn lled anesmwyth a chynhyrfiedig, ond ym mhen ychydig, medd yr hanes, daeth yn fwy tawel. Dyma y prif ffeithiau sydd etto wedi cyrhaeddyd y wlad hon. Erbyn ein rhifyn nesaf hydd yr hanes yn fwy cyflawn ond odid.

FFRAINGC

Rhaid fod Louis Napoleon yn meddu ar fwy o alluoedd a medr nag yr oeddid yn eu cyfrif iddo; onite ni fuasai wedi llwyddo i gadw ei swydd (fel y mae) dros fwy na blwyddyn. Hyd yma y mae wedi gallu symud y rhwystrau a gyfodent ar ei ffordd. Swm y newyddion diweddar o Ffraingc yw hyn: fod

y llywodraeth ar y cyfan yn myned ymlaen mor llyfn ag y gellid ei ddisgwyl, gan gadw y gwerinwyr cochion dan llaw; a'r Llywydd yntau yn llwyddo beunydd i grynöi mwy a mwy o awdurdod iddo ei hun.

GERMANY

Hysbysir ni nad yw y tawelwch presenol ond arwynebol iawn yn nhaleithiau Germany. Y mae ysbryd diwygiad wedi dangos ei fod etto yn fyw, fel nad yw gwiw ceisio llywodraethu yno yn ôl yr hên drefn.

YR ITAL.

Y mae y Ffrangcod yn methu llwyddo i gael y Pab yn ôl i Rufain; ac yntau, druan, yn methu cael ffordd er cael i'r Ffrangcod i fyned oddiyno, yn y modd y dewisa efe.

RWSSIA A THWRCI.

Disgwyliasid y buasai yr anghydfod a gymerodd le rhwng y ddwy wlâd yn achos y ffoedigion o Hungary, wedi ei symud erbyn hyn. Ond tebyg mai nid felly y mae. Dywedir fod ymerawdwr Rwssia yn disgwyl ei amser; ac ei fod yn crynoi ei fyddin a'i lynges i gael bod yn barod i ymosod ar Twrci yn y gwanwyn. Dywedir hefyd nad oes argoel y daw neb ymlaen i gymeryd plaid Twrci, oddieithr Lloegr. Y mae Ffrainge, oherwydd rhyw reswm neu gilydd wedi galw yn ôl y llynges a ddanfonodd i'r Dardanelles.

MARWOLAETH

Bu farw, Tachwedd 28aln., yn 89 oed, Mr. Timothy Evans, Pistilleinon ger Llambedr-pont-Stephen. Bu am hirfaith flynyddau yn aelod hardd yng Nghaeronen, a daliodd gyda chrefydd hyd ddiwedd ei oes. Ar ddydd yr angladd pregethodd y Parch. T. Griffiths, oddiwrth Dat. vii- 13. 14. Yr oedd gair da i'r ymadawedig gan bawb a'i adwaenent.

J. D.

BARDDONIEATH.

I DDUW Y BYDDO'R MAWL.

O Pwy a ddichon ganu'n ffraeth,
I'r Bod a wnaeth y bydoedd?
A seinio ei fawl rhyfeddawl faith,
Yn nifyr iaith y nefoedd:

Myfi, nid wyf ond pryfyn gwael,
Fy Arglwydd hael sy'n gwybod;
Er profi nodded pur fy Nuw,
Anhyfawl yn fy nhafod.

'Rwyf fi'n friwedig dan fy nghlwyf,
A gwanaf wyf o'r gweiniaid;
Ond dichon cadarn gariad cu
Gyfodi i fynu f'enaid.

Nid allaf draethu'r clod yn rhwydd
A haeddai f' Arglwydd tirion,
Ei fawl a gaiff lochesu'n glau
Yn nirgel giliau'r galon.

O Dad! dod im' bob peth er lles,
I'w feddu'n gynes genyf:
A chadw'r peth na'm gwnelo'n well
Yn mhell, yn mhell oddi wrthyf.

Ti fuost im' yn Rhoddwr hael
Yn nghyflwr gwael marwoldeb;
I'th foli 'n deg, fy Arglwydd da,
Nid rhy faith trag'wyddoldeb.

D. Ddu o Eryri.

AT EIN GOHEBWYR

Derbyniadau y Mis.—T. Stephens; O. Evans; D. Lloyd; J. Jones; D. L. Evans; Tau Gimel; D. Evans; Bene Volente; Dewi Dolfor a John Davies.

Daeth "Cosp Dirprwyol," ac "Amseroedd enbyd &c." yn rhy ddiwedar i gael ymddangos yn y Rhifyn hwn.

Gorfu arnom hefyd adael allan y Traethawd ar "Brif egwyddorion y Mud-gyfreithiau (*Laws of Motion.*)"

D. E.—Nid ydym yn ystyried y dernyn o waith Andrew Fuller yn ddigon o werth i ni ei argraffu yn yr Ymofynydd.

Euelpis.—Mewn atebiad i'ch disgwyliad (Rhif. Awst diweddaf) y mae Mr. Evans o Lambedr, wedi ysgrifenu attom "i fynegu (er eich boddhâd chwi debygem,) beth y mae efe yn feddwl am John Foster" a'i dystiolaeth yn erbyn "Cospedigaeth Diddiwedd." "Ar ba dir," gofyn Mr. E. "oedd Mr. Foster yn gwrthod credu parhâd diderfyn y poenau? Ai oblegid iddo chwilio yr oll mae y Beibl yn ei draethu ar y fâth bwngc pwysig? Nage, ddim. Gwrthododd yn gyfangwbl ddadlu ar y pwynt yma oddiar awdurdod y Datguddiad dwyfol; ond gorphwysai ei wrthodiad o honi ar yr hyn oedd yn ei alw *moral argument*, pa un sydd fel hyn; '*I acknowledge my inability to admit this belief together with a belief in the divine goodness.*'—(Life, Vol. II. let. 224). Felly, oherwydd nad allai Mr. Foster gymodi y daioni dwyfol â gweithrediadau ei gyfiawnder gweinyddol, gan hyny mae yn [eu] gwrthod hwy!"

Penybont: Argraffwyd gan W. Winstone, yn ei Argraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Ionawr, 1850.